
Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad Blynyddol & Chyfrifon

2013-2014



## Pwy ydym ni...

**Estyn yw'r Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.  Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru.  Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru.**

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Ar 31 Mawrth 2014, roedd Estyn yn cyflogi 109 o aelodau staff parhaol a staff cyfnod penodol, y mae 61 ohonynt yn Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM) neu'n Arolygwyr Ychwanegol (AY) – gan gynnwys pum Cyfarwyddwr Cynorthwyol.  Hefyd, fe wnaethom ategu ein gallu arolygu mewnol trwy gyflogi 18 o secondeion yn ystod 2013-2014.

Rydym hefyd yn caffael ac yn hyfforddi Arolygwyr Ychwanegol, aseswyr cymheiriaid ac enwebeion sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd, i weithio fel rhan o dimau arolygu.  Yn ogystal, mae Estyn yn cyflogi Cydysgrifenyddiaeth Arolygu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel rhan o Arolygu Cymru, sef menter gydweithio rhwng y pedwar prif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru.  Mae'r ysgrifenyddiaeth yn rheoli ac yn cyflwyno rhaglen waith rhwng y pedwar corff.

Ar gyfer blwyddyn ariannol gyfan 2013-2014, cynhaliwyd 100% o'r arolygiadau o ysgolion yn uniongyrchol gan AEM neu Arolygwyr Ychwanegol a gyflogwyd yn uniongyrchol gan Estyn.  Mae nifer fach o Arolygwyr Ychwanegol wedi cyflawni agweddau ar waith arolwg a gwaith hyfforddi ar ran Estyn hefyd.

Mae ein swyddfa wedi'i lleoli yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd.  Mae bron pob un o arolygwyr cyflogedig Estyn yn gweithio gartref yn hytrach nag mewn swyddfa, ac eithrio ein tîm rheoli.

Mae'r gair Estyn yn golygu 'cyrraedd', 'ymestyn' neu 'ehangu'.

## Beth yw cynnwys yr adroddiad hwn?

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn yn crynhoi ein cynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf wrth i ni weithio tuag at ein blaenoriaeth strategol, sef codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Yn benodol, rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein tri amcan strategol a'n tair egwyddor cyflawni, fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2013-2014, yn ogystal â darparu set lawn o'n cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014.  I gael rhagor o wybodaeth am Estyn, ewch i'n gwefan, www.estyn.gov.uk

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Rhagair** **1**

**Adran 1: Adolygiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol** **3**

Amcan 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru 3

Amcan 2: Llywio datblygiad polisi gan Lywodraeth Cymru 12

Amcan 3: Adeiladu gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru 17

Egwyddor cyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' 24

Egwyddor cyflawni 2: Datblygu Estyn yn 'gyflogwr enghreifftiol' 25

Egwyddor cyflawni 3: Cydweithio gydag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant 27

**Adran 2: Cyfrifon blynyddol 2013-2014** **34**

**Sylwebaeth ar reolaeth** **35**

**Adroddiad ar gyflogau** **46**

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** **52**

**Datganiad llywodraethu** **53**

1 Cyflwyniad 53
2 Y fframwaith llywodraethu 53
3 Archwilio ac effaith 54
4 Rheoli risg 55
5 Materion llywodraethu arwyddocaol 57

**Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru** **59**

**Cyfrifon Blynyddol Estyn 2013 - 2014 (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – IFRS)** **61**

**Nodiadau i gyfrifon adnoddau adrannol** **65**

**Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** **75**


Lle cyfeirir at Ddangosyddion Perfformiad (DPau) Estyn fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2013-14, defnyddir y symbol canlynol: **DP**

## Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn, sy'n manylu yn Adran 1 ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-2014, ac yn rhoi set lawn o ddatganiadau ariannol yn Adran 2.

Ar ôl cynnal adolygiad yng nghanol ein cylch arolygu y llynedd, rydym wedi cyflawni rhaglen lawn o arolygiadau eleni, gan ddefnyddio llawlyfrau wedi'u diweddaru ac arweiniad wedi'i ddiwygio.  Mae dogfennaeth newydd a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys arweiniad atodol diwygiedig ar gyfer arolygu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.  Mae'r arweiniad hwn wedi cynorthwyo arolygwyr wrth adrodd ar safonau llythrennedd a rhifedd ac ar allu dysgwyr i gymhwyso'r medrau hyn mewn gwaith ar draws y cwricwlwm, yn unol â disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a ddaeth yn statudol ym Medi 2013.

Mae arweiniad arolygu wedi'i gyhoeddi hefyd ar arolygu mewn perthynas â'r Mesur diweddar Bwyta ac Yfed yn Iach (Cymru), ac ar nodi sut y gall ysgolion leihau effaith tlodi (neu ddifreintedd neu anfantais) ar ddeilliannau addysgol.  Mae astudiaethau achos ar dudalennau 7 a 15 yn dangos y mentrau yr ydym wedi'u dwyn yn eu blaen yn y maes hwn, a darparwyd hyfforddiant perthnasol i bob un o'n harolygwyr ar ddefnyddio'r arweiniad newydd ac enghreifftiau o arfer dda.

Rydym wedi defnyddio technoleg gwybodaeth arloesol i'w gwneud yn haws i ddarparwyr ac arolygwyr gael mynediad i wybodaeth arolygu.  Parhawn i fynd i'r afael â phryderon newydd wrth iddynt godi a chytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol.  Mae defnyddio ystafelloedd arolygu rhithwir i gadw a throsglwyddo gwybodaeth, a chydlynwyr arolygu i weinyddu arolygiadau, yn parhau i fod yn llwyddiannus a chynhyrchir adborth cadarnhaol gan arolygwyr a'r darparwyr hynny sy'n cael eu harolygu.

Mae Ofsted wedi dangos diddordeb yn ein systemau ac rwyf wedi gallu cytuno secondiad staff i Ofsted i'w helpu sefydlu systemau fel ein rhai ni.  Dim ond un rhan o fenter fwy i rannu arfer dda ag arolygiaethau eraill, sy'n cynnwys cyfnewid arolygwyr, yw hyn.  Yn 2014, ymunodd AEM o Estyn â thimau arolygu darparwyr addysg bellach yng ngwledydd eraill y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a bu arolygydd o Weriniaeth Iwerddon yn cysgodi tîm yn ystod arolygiad ysgol gynradd yng Nghymru.

Roedd eleni yn flwyddyn bwysig o ran cryfhau cysylltiadau ag arolygiaethau eraill drwy gydweithio a chydweithredu.  Er enghraifft, yn haf 2013, cynhaliom weithdy ar gyfer uwch reolwyr o arolygiaethau addysg Cymru, yr Alban, Gweriniaeth Iwerddon, Lloegr a Gogledd Iwerddon, er mwyn trafod risgiau strategol lefel uchel, adeiladu gallu yn y gweithlu addysg, ac addysg ac arweinyddiaeth.  Mae gweithgareddau fel y rhain yn parhau i ddarparu cyfleoedd da i ddysgu oddi wrth ein gilydd.

Parhawn i gynnal arolygiadau dilynol, sy'n wiriad cymesur o gynnydd yn dilyn arolygiadau craidd, ac mae darparwyr sy'n cael camau dilynol yn dangos gallu da i wella yn gyffredinol.  Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2013, o'r enw "Teithiau Gwella", cawsom gipolygon ar nodweddion cyffredin ysgolion sydd wedi


gwneud gwelliannau o fannau cychwyn gwahanol. Eleni, gallwn ddangos gwelliannau gan awdurdodau lleol hefyd (gweler tudalen 8). Ers cael eu rhoi yn y categori mesurau arbennig, mae nifer ohonynt wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu gwasanaeth addysg ac yn gorfforaethol, gyda swyddogion ac aelodau etholedig yn gweithio'n dda i sefydlu consensws ar wella blaenoriaethau a nodwyd. Mae mwy o awdurdodau ac ysgolion yn cael eu tynnu o gategorïau gweithgarwch dilynol yn flynyddol, ac mae eu gwelliannau'n cyfiawnhau ein buddsoddiad mewn monitro cymesur ar ôl arolygiadau.

Parhawn i wneud arbedion ar ein gwariant er mwyn ymateb i bwysau ar wariant cyhoeddus, gan sicrhau hefyd ein bod yn gwneud gwaith cyflwyno gweithredol sy'n cefnogi ein hamcanion strategol a'n hegwyddorion cyflawni. Er enghraifft, eleni cyhoeddwyd a lansiwyd 12 o adroddiadau arolygon thematig i ymateb i'r llythyr cylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Defnyddir yr adroddiadau arolwg hyn gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant fel meincnod ar gyfer eu cynnydd eu hunain, a chânt sylw da mewn papurau lleol a chenedlaethol yng Nghymru a'r cyfryngau darlledu.

Mae staff Estyn yn ymwybodol o'r angen i fod yn effeithlon yn y cyd-destun fod Estyn yn ymdrechu i fod yn sefydliad 'gwerth gorau'. Eleni, rydym wedi rhoi 'system rheoli perfformiad parhaus' newydd ar waith ar gyfer pob un o'r staff, ac mae'r system honno'n rhoi pwyslais cyfartal at 'ddeilliannau' a gyflawnir yn erbyn amcanion ac 'ymddygiadau' (yn erbyn fframwaith cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil) fel y'u dangosir gan staff. Mae'r system newydd yn rhoi ffocws ar wella perfformiad, gydag unigolion yn cymryd mwy o berchenogaeth am reoli perfformiad a datblygu. At hynny, drwy fentrau hunanasesu yn ogystal â hyfforddiant mewnol, parhawn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ac eleni rydym wedi cynyddu nifer y staff corfforaethol sy'n medru'r Gymraeg.

Eleni, cynhaliom adolygiad mewnol cynhwysfawr o gynnydd a gwelliant, ac adolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP). Roedd yr asesiadau'n gadarnhaol iawn, gan ganfod fod ein dulliau o weithredu, adolygu a gwella ein strategaeth arweinyddiaeth a rheolaeth wedi sicrhau deilliannau perfformiad rhagorol a gwell ymgysylltu â staff. Rydym yn cadw'r dyfarniad aur ar gyfer IiP.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio i Estyn am y modd y maent yn gweithio i gefnogi cyflawni ein hamcanion trwy gydol y flwyddyn.



**Ann Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
a Swyddog Cyfrifyddu

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 15 Gorffennaf 2014

# Adran 1

# Adolygiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol

## Amcan 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Yr hyn rydym wedi'i wneud...

| | |
|---|---|
| **1** | **Cynnal / adolygu ein trefniadau arolygu**<br><br>• ymgynghori ar newidiadau i reoliadau'n ymwneud ag amseru arolygiadau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud amseru arolygiadau'n llai rhagweladwy drwy ddarparu mwy o hyblygrwydd wrth drefnu amserlen arolygiadau;<br>• parhau i gyflawni ein rhaglen o arolygiadau craidd, yn seiliedig ar ddadansoddi data perfformiad, hunanarfarniadau darparwyr, a 'thrywyddau ymholi' yn deillio o'r rheini;<br>• arolygu rhyw un o bob chwech o ddarparwyr;<br>• gwella ein defnydd o dechnoleg gwybodaeth a'r ystafelloedd arolygu rhithwir (YARau) er mwyn sicrhau bod gwybodaeth arolygu ar gael yn rhwydd ac yn hawdd ei defnyddio gan ddarparwyr ac arolygwyr;<br>• cynnal peilot o'r defnydd o YARau gan arolygwyr adran 50 mewn ysgolion ffydd;<br>• monitro gweithrediad trefniadau arolygu er mwyn nodi unrhyw broblemau ac i ystyried a chytuno unrhyw newidiadau;<br>• darparu arweiniad a hyfforddiant, yn cynnwys cylchlythyrau a diweddariadau e-bost rheolaidd, i roi gwybod i arolygwyr am newidiadau i drefniadau arolygu ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd;<br>• defnyddio deilliannau sicrhau ansawdd i ddylanwadu ar ddyfarnu contractau i arolygwyr annibynnol a darparu cymorth perthnasol, lle bo angen; a<br>• defnyddio'r grŵp Polisi Arolygu a Chydymffurfio (PACh)[1] i sicrhau gweithredu unrhyw drefniadau arolygu diwygiedig yn gyson ar draws sectorau fel bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd yn cael eu cofnodi, yr eir i'r afael â nhw trwy bolisïau a gweithdrefnau cytûn, a bod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu trafod a'u datrys. |

[1] Mae'r grŵp Polisi Arolygu a Chydymffurfio (Pac) yn cynnwys Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Estyn ac Arolygwyr Arweiniol cynrychioliadol sectorau, yn ogystal â chynrychiolwyr o Wasanaethau Corfforaethol. Ei gylch gwaith yw monitro trefniadau arolygu Estyn, nodi materion a chytuno ar unrhyw newidiadau, a sicrhau yr eir i'r afael yn gyson â materion ansawdd ar draws pob sector trwy bolisïau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd cytûn.

| | |
|---|---|
| **2** | **Cynnal lefelau gwell o weithgarwch arolygu dilynol**<br><br>• monitro arolygiadau craidd yn ofalus drwy ddilysu a safoni fel rhan o waith sicrhau ansawdd sy'n cynnwys craffu'n ofalus ar y barnau sy'n arwain at ymweliadau dilynol;<br>• cynnal ymweliadau dilynol ar gyfer y darparwyr hynny y nodwyd bod angen cymorth pellach arnynt;<br>• sicrhau bod yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) wedi cael ei hysbysu am unrhyw ysgol, leoliad neu ddarparwr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ac o ganlyniadau'r gweithgareddau hyn;<br>• adolygu ac arfarnu trefniadau dilynol presennol a gwneud unrhyw newidiadau neu welliannau angenrheidiol;<br>• cynnal peilot o ddulliau desg ym mhroses fonitro Estyn yn y sector cynradd;<br>• ymestyn, lle bo'n briodol, y cyfnod amser i ysgol aros ar lefel gweithgarwch dilynol er mwyn caniatáu amser i ddatblygu ymhellach;<br>• canolbwyntio'r ymweliadau cyntaf ag ysgolion mewn mesurau arbennig yn fwy ar faterion datblygiadol, fel dylunio'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn hytrach nag ar farnu cynnydd;<br>• parhau i ddarparu arweiniad a hyfforddiant i arolygwyr ar natur gweithgarwch dilynol yn y llawlyfrau sector sydd ar gael ar ein gwefan; a<br>• nodi astudiaethau achos o arfer sy'n arwain y sector yn ystod arolygiadau i'w lledaenu ar ein gwefan. |
| **3** | **Cadw'r holl arolygiadau o ysgolion yn rhai dan arweiniad Estyn (wedi'u harwain naill ai gan AEM neu Arolygwyr Ychwanegol – AYau) a sicrhau ansawdd yr holl adroddiadau arolygu cyn eu cyhoeddi drwy gontractio'n uniongyrchol ag AYau a chadw'r rhestr o Arolygwyr Cofrestredig (ACofau)**<br><br>• cyflwyno model gwerth am arian ar gyfer contractio gydag Arolygwyr Ychwanegol sy'n ystyried ansawdd yn ogystal â phris;<br>• recriwtio, dewis a chofrestru arolygwyr newydd ar sail asesiad, gan gynnwys Arolygwyr Ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg, er mwyn sicrhau bod y gronfa'n ddigon dwfn i fodloni ymrwymiadau rhaglenni gwaith a sicrhau cystadleuaeth;<br>• darparu diweddariadau hyfforddi i'r holl arolygwyr ar y fframwaith arolygu ar gyfer pob sector;<br>• defnyddio holiaduron ôl-arolygiad i helpu asesu ansawdd arolygiadau ac adroddiadau; a<br>• pharhau i fonitro ansawdd pob arolygiad ac adroddiad trwy safoni a dilysu trwyadl fel rhan o broses sicrhau ansawdd, a defnyddio'r wybodaeth o'r broses sicrhau ansawdd i lywio hyfforddiant ac arweiniad arolygu fel bo'r angen. |

| | |
|---|---|
| **4** | **Adolygu, peilota a diweddaru'r arweiniad ar drefniadau arolygu i baratoi ar gyfer ail hanner y cylch (2013-2016)**<br><br>• gwneud addasiadau i drefniadau arolygu yn dilyn ein hadolygiad ar ganol cylch a'n harfarniad o drefniadau presennol a ddaeth yn weithredol o Fedi 2013;<br>• gweithredu ar ôl yr ymgynghoriad ar y cyd ag AdAS ar reoliadau ynglŷn ag amseru arolygiadau trwy drefnu arolygiadau'n fwy hyblyg ar gyfer 2014-2015 er mwyn gwneud amseru arolygiadau'n llai rhagweladwy;<br>• defnyddio ein fforymau rhanddeiliaid i ymgynghori ar newidiadau i drefniadau arolygu;<br>• trafod unrhyw newidiadau a gwelliannau arfaethedig i drefniadau arolygu yn fewnol mewn cyfarfodydd rhwydwaith sector a'r grŵp PACh a chytuno arnynt ar lefel y bwrdd gweithredol;<br>• peilota, arfarnu ac addasu unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau arolygu yn dilyn ymlaen o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar y cyd ag AdAS o fewn y flwyddyn ariannol; a<br>• chadarnhau a chytuno ar newidiadau i drefniadau arolygu a gwneud newidiadau priodol i lawlyfrau arolygu, deunyddiau hyfforddi a materion gweithredol mewn pryd ar gyfer Medi 2014, gan gynnwys mwy o bwyslais ar arolygu sut mae darparwyr yn mynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar addysg. |
| **5** | **Ystyried barn dysgwyr a rhanddeiliaid**<br><br>• gwrando ar ddysgwyr, rhieni a llywodraethwyr fel y bo'n briodol yn ystod ein harolygiadau ysgol;<br>• defnyddio holiaduron i gael barn dysgwyr a rhieni ar agweddau ar addysg yn y sectorau ysgol, cynhyrchu meincnodau cenedlaethol ar gyfer eu hymatebion i arolygwyr eu defnyddio ar arolygiadau fel bo'r angen, a chyhoeddi'r meincnodau mewn atodiadau at adroddiadau arolygu ysgolion;<br>• defnyddio'r ymatebion o holiaduron gan ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill mewn adroddiadau thematig lle bo'n briodol;<br>• paratoi arweiniad i arolygwyr ynglŷn â sut i adrodd ar Lais y Dysgwr at ddibenion arolygu, a defnyddio Llais y Dysgwr ar gyfer yr adolygiadau blynyddol o Sefydliadau Addysg Bellach yr ydym yn eu cynnal ar hyn o bryd; a<br>• holi barn cyflogwyr ar agweddau ar addysg a hyfforddiant yn y sector addysg bellach a'r sector dysgu yn y gwaith. |
| **6** | **Sicrhau ansawdd pump y cant o arolygiadau wedi'u harwain gan AEM, deg y cant o arolygiadau wedi'u harwain gan AY a'r holl adroddiadau arolygu cyn eu cyhoeddi**<br><br>• gweithredu a monitro system sicrhau ansawdd drwyadl ar gyfer gwaith pob arolygydd;<br>• sicrhau bod pob adroddiad arolygu'n cynnwys testun a barnau clir sy'n addas ar gyfer darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau;<br>• sicrhau ansawdd adroddiadau arolygu Estyn cyn eu cyhoeddi i sicrhau bod |

| | |
|---|---|
| | barnau wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn dilyn protocolau cytûn ac yn glir i ddarllenwyr;<br>• adolygu a mireinio fel bo'r angen y targedau sicrhau ansawdd ar gyfer arolygiadau ac adroddiadau;<br>• defnyddio'r canlyniadau o sicrhau ansawdd arolygiadau i ddarparu hyfforddiant perthnasol i arolygwyr a chynnal safon uchel gwaith arolygu; a<br>• defnyddio'r dystiolaeth a'r barnau o fonitro ansawdd arolygiadau ac adroddiadau arolygu wrth asesu a dyfarnu contractau i Arolygwyr Ychwanegol;<br>• cyflawni gradd 'sicrwydd llawn' gan Deloitte ar ôl archwiliad mewnol o'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer arolygiadau wedi'u harwain gan AY. |
| **7** | **Canolbwyntio ar ofynion statudol fel y maent yn berthnasol i Estyn**<br><br>• sicrhau bod pob arolygiad yn arfarnu trefniadau darparwyr ar gyfer diogelu ac adrodd arnynt ym mhob adroddiad arolygu;<br>• adolygu a diweddaru gweithdrefnau diogelu Estyn ar gyfer arolygu, gan gynnwys arweiniad atodol, ffurflenni hunanarfarnu cyn-arolygiad, a'r polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed;<br>• sefydlu system gymorth ymholiadau a chyngor ar gyfer AEM yn ystod arolygiad, a darparu hyfforddiant i bob AEM ar faterion diogelu ac amddiffyn plant;<br>• sefydlu cyfarfodydd diogelu ar draws Estyn bob tymor i fynd i'r afael â'n cyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel arolygiaeth, a'n dyletswyddau i gyfeirio gwybodaeth;<br>• sefydlu cyfarfodydd rhannu gwybodaeth rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, AGGCC a Chomisiynydd Plant Cymru;<br>• diweddaru a monitro ein Cynllun Iaith Gymraeg i ystyried gofynion deddfwriaeth newydd yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg;<br>• cyhoeddi "Canllaw i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflwyno hyfforddiant Cymraeg mewn dysgu yn y gwaith: papur trafod"; a<br>• thrwy ein harweiniad atodol a llawlyfrau diwygiedig, ystyried deddfwriaeth newydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol mewn trefniadau arolygu. |

**Astudiaeth achos – sut yr ymatebodd Estyn i ddeddfwriaeth newydd ar fwyta'n iach**

Er Medi 2010, mae Estyn wedi adrodd ar y ddarpariaeth gan ysgolion i helpu disgyblion ddeall sut i fod yn iach, gan gynnwys addysgu disgyblion ynglŷn â phwysigrwydd diet ac ymarfer corff. Adroddwn hefyd ar ba mor dda y mae disgyblion yn deall sut i gadw'n iach.

Ym Medi 2013, daeth y Mesur Bwyta ac Yfed yn Iach (Cymru) i rym ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Yn y ddwy flynedd flaenorol, bu Estyn yn rhan o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â goblygiadau'r gofyniad statudol newydd hwn.

Pennodd y Mesur gyfrifoldeb newydd ar y Prif Arolygydd i adrodd ar ba un a yw ysgolion yn gwneud trefniadau priodol i ddarparu prydau a diodydd iach.

Er mwyn sicrhau bod fframwaith arolygu Estyn yn cynnwys y ddyletswydd hon; gwnaethom y canlynol:

- diwygio'r fframwaith;
- adolygu'r arweiniad atodol ar arolygu byw'n iach; a
- darparu hyfforddiant i AEM, Arolygwyr Ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg.

**Astudiaeth achos – sut wnaeth gwaith dilynol ar Ynys Môn gynorthwyo gwelliant**

Ym Mai 2012, fe wnaethom arolygu gwasanaethau addysg Cyngor Ynys Môn ar gyfer plant a phobl ifanc. Ar sail canfyddiadau'r arolygiad, rhoddwyd yr awdurdod yn y categori mesurau arbennig gan PAEM, a phenodwyd bwrdd adfer gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo â chyflwyno gwasanaethau addysgu. Gwnaethom waith dilynol i fonitro pa mor effeithiol yr oedd yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r saith argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad arolygu.

Tîm o dri arolygydd a gynhaliodd y cyntaf o'r ymweliadau monitro yn Nhachwedd 2013, ac yna ymweliadau pellach yn Chwefror a Mehefin 2014. Canolbwyntiodd pob un o'r ddau ymweliad cyntaf ar gynnydd yn erbyn tri argymhelliad a cheisio nodi unrhyw angen pellach i wella. Canolbwyntiodd yr ymweliad olaf ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion eraill ac yn ystyried perfformiad cyffredinol yr awdurdod yn erbyn ei gynllun ôl-arolygiad.

Yn ystod yr ymweliadau, cynhaliodd y tîm drafodaethau gyda'r deiliad portffolio, y prif weithredwr, aelodau etholedig, uwch swyddogion, penaethiaid ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a chynrychiolwyr partneriaid yr awdurdod. Bu arolygwyr hefyd yn craffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys arfarniadau'r awdurdod o gynnydd yn erbyn argymhellion Estyn. Ar ddiwedd pob ymweliad, adroddodd y tîm am ei ganfyddiadau i uwch swyddogion y gwasanaeth addysg, arweinydd y cyngor a chadeirydd y bwrdd adfer.

Canfuom fod yr awdurdod, ers arolygiad 2012, wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y gwasanaeth ysgolion ac yn gorfforaethol. Mae arweinwyr wedi gweithio'n dda i sefydlu consensws gwleidyddol mewn perthynas â blaenoriaethau a nodwyd. Mae ailstrwythuro ar lefel pennaeth gwasanaeth wedi cryfhau'r gallu corfforaethol i arwain prosiectau sy'n gweddnewid, yn cynnwys moderneiddio ysgolion. Yn fuan ar ôl yr arolygiad, ymgymerodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes â'i swydd, a symudodd yr awdurdod i lenwi swyddi allweddol eraill yn y gwasanaeth ar sail barhaol. Mae'r berthynas rhwng y gwasanaeth a'i ysgolion wedi newid yn sylweddol. Mae ysgolion yn cyfrannu'n effeithiol at y diwylliant o welliant parhaus sydd wedi gwreiddio'n gadarn o fewn yr awdurdod.

Mae gan aelodau etholedig ddealltwriaeth glir o gyfrifoldebau'r awdurdod. Ymgysylltant yn dda â threfniadau craffu i ddwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif. Maent yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella. Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn gweithio'n dda gyda'r bwrdd adfer, sy'n cynnig her allanol.

Ar ddiwedd y cyfnod monitro, roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oedd angen gweithredu mesurau arbennig yn yr awdurdod mwyach, ac na fyddai angen unrhyw weithgarwch dilynol arno.

## Mesurau perfformiad y cylch arolygu

DP

## Adroddiadau arolygiadau wedi'u harwain gan Estyn

| | Canran darged | Canran wirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Adroddiadau arolygiadau wedi eu harwain gan Estyn nad ydynt wedi'u diwygio ar ôl eu cyhoeddi o ganlyniad i her a gadarnhawyd | 100% | 100% | |
| Adroddiadau arolygiadau wedi'u harwain gan Estyn a gyhoeddwyd o fewn y terfynau amser statudol neu gytûn | 100% | 99% | Ni chafodd pedwar adroddiad arolygu eu lanlwytho yn unol â'r amserlen eleni.<br><br>Cafodd adroddiadau ar gyfer dau ddarparwr - un ysgol ac un coleg addysg bellach - eu hoedi yn sgil ymchwiliadau cyfredol i gŵynion.<br><br>Cafodd un adroddiad arolygu yn y sector nas cynhelir ei oedi am ddiwrnod oherwydd problemau gyda systemau TG a'r e-bost.<br><br>Cyhoeddwyd adroddiad arolygu un ysgol ddiwrnod yn hwyr, oherwydd problemau cyfathrebu yn ystod cyfnod gwyliau ysgol. |

## Arolygiadau Estyn 2013-2014

| Sector | Nifer a gynlluniwyd | Nifer wirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Meithrinfeydd nas cynhelir | 140 | 92 | Diwygiwyd nifer yr arolygiadau a gynlluniwyd yn sgil datgofrestru lleoliadau gan awdurdodau lleol |
| Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gynhelir | 208 | 214 | Daethpwyd ag wyth o arolygiadau ysgolion cynradd ymlaen o flwyddyn ariannol 2014-2015 |
| Ysgolion uwchradd | 41 | 39 | Arolygwyd llai o ysgolion uwchradd yn sgil ysgolion yn cau neu'n uno |
| Ysgolion arbennig | 6 | 6 | |
| Ysgolion annibynnol gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol | 10 | 13 | Cynhaliwyd mwy o arolygiadau yn sgil symud yn yr amserlen arolygiadau |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | 7 | 8 | UCD newydd ychwanegol wedi'i hychwanegu at yr amserlen |
| Awdurdodau lleol | 4 | 3 | Pob un o'r arolygiadau o awdurdodau lleol wedi'u cwblhau; roedd y nifer a drefnwyd yn wreiddiol yn uwch na hynny a oedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cwblhau'r cylch |
| Ôl-16 | 14 | 10 | Gostyngiad yn nifer yr Arolygiadau ôl-16 sy'n cael eu cynnal, yn sgil darparwyr yn cau a chwblhau'r cylch ar gyfer sectorau perthnasol |

Yn ogystal, yn ystod y cyfnod 2013-2014, cynhaliodd Estyn y niferoedd canlynol o arolygiadau dilynol lle’r oedd yn angenrheidiol er mwyn monitro cynnydd:

| **Sector** | **Nifer yr ymweliadau dilynol** |
|---|---|
| Meithrinfeydd nas cynhelir | 21 |
| Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin nas cynhelir | 97 |
| Ysgolion uwchradd | 37 |
| Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion | 13 |
| Awdurdodau lleol | 12 |
| Ôl-16 | 2 |
| Canolfannau addysg athrawon | 1 |

## Amcan 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Yr hyn rydym wedi'i wneud...

| | |
|---|---|
| **1** | **Cryfhau ein galluoedd presennol i reoli gwybodaeth**<br><br>• cynnal arolygiadau thematig fel y'u rhestrwyd yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2013-2014 at y Prif Arolygydd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (gweler tudalen 14 am fanylion);<br>• rhoi cyngor a chymorth i'r AdAS yn ôl yr angen, gan gynnwys cyfranogi mewn ystod o bwyllgorau, gweithgorau a grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 3 am restr o'r gweithgorau);<br>• gweithio gyda'r AdAS i lunio rhestr dros dro o themâu y gellid gofyn am gyngor arnynt yn 2014-2015 a thu hwnt;<br>• parhau i nodi a chynnal arolygiadau ac arolygon thematig 'hydredol' sy'n rhychwantu nifer o flynyddoedd, er enghraifft, yr astudiaethau tair blynedd ar weithredu elfennau llythrennedd a rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;<br>• cynnal arolygiadau thematig ar destunau a nodwyd gan Estyn pan fo angen;<br>• cysylltu arolygiadau thematig yn agos â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft yn ein hadroddiadau ar liniaru effaith tlodi ac anfantais;<br>• nodi arolygiadau thematig a fyddai'n elwa ar waith ar y cyd â chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill, er enghraifft, cyhoeddwyd ein hadroddiad 'Absenoldeb athrawon' ynghyd ag adroddiad cysylltiedig gan Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• cyfrannu at adroddiadau ar arolygiadau ac arolygon ar y cyd yn cynnwys cyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill; a<br>• pharhau i geisio ffyrdd gwell o gyfleu canfyddiadau adroddiadau thematig i gynulleidfa ehangach er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac adeiladu gallu, er enghraifft gwahodd pob arweinydd ysgol uwchradd i fynychu cynhadledd ar 'Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd'. |
| **2** | **Llunio adroddiad blynyddol ar safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru**<br><br>• cyhoeddi adroddiad blynyddol PAEM ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru dros y flwyddyn academaidd flaenorol (2012-2013), ei lanlwytho i'r wefan a chreu ymgyrch yn y cyfryngau ac ymgyrch farchnata i gefnogi ei gyhoeddi;<br>• cynhyrchu fideo o ddarparwyr gan esbonio sut roeddent wedi defnyddio adroddiad blynyddol PAEM fel rhan o'r lansiad;<br>• cyhoeddi'r crynodeb o adroddiadau thematig ar wahân i adroddiad blynyddol PAEM er mwyn cynyddu cyfleoedd i'r eithaf i roi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau;<br>• gweithredu dyluniad graffig newydd a fformat wedi'i symleiddio ar gyfer adroddiad blynyddol PAEM; a<br>• pharhau i adolygu'r ffordd rydym yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol PAEM gyda'r bwriad o wneud gwelliannau defnyddiol. |

| | |
|---|---|
| **3** | **Cryfhau ein gallu mewnol**<br><br>• tynnu negeseuon allweddol ynghyd o waith rolau arweiniol polisi addysg mewn compendiwm er mwyn darparu trosolwg blynyddol;<br>• adolygu'r dyraniadau amser ar gyfer rolau arweiniol polisi addysg er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'u hamser;<br>• peilota'r defnydd o arolygwyr cymheiriaid ar ddau arolwg thematig;<br>• parhau i ddatblygu rolau arweiniol polisi addysg a gofyn i'r holl arweinwyr polisi i roi diweddariadau yn ystod wythnosau corfforaethol; a<br>• pharhau i ddatblygu rolau arwain: er enghraifft, bu cyfleoedd i staff corfforaethol gyflenwi dros gydweithwyr gradd uwch, cyfleoedd i AEM wneud cais i gyflenwi mewn rolau Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a chyfleoedd secondiad a chysgodi eraill. |
| **4** | **Datblygu galluoedd rheoli gwybodaeth newydd**<br><br>• datblygu ymhellach ein system rheoli gwybodaeth drwy sefydlu'r fewnrwyd SharePoint newydd, yn cynnwys awtomeiddio'r llif gwaith adroddiadau thematig;<br>• gwella ein gwefan a gwasanaethau cysylltiedig i ganolbwyntio adnoddau lle cânt yr effaith fwyaf ar gyfer dysgwyr, er enghraifft, drwy anfon negeseuon e-bost, cylchlythyrau a rhybuddion ynglŷn â'n hadroddiadau thematig yn uniongyrchol at ymarferwyr, gan arwain at fwy o lawrlwytho'r adroddiadau hynny;<br>• datblygu ein systemau i gasglu ein gwybodaeth reoli a'n tystiolaeth arolygu, gan gynnwys cronfa ddata gweithgarwch dilynol newydd;<br>• penodi swyddog arweiniol ymchwil newydd ac ailsefydlu ein grŵp rheoli gwybodaeth;<br>• nodi'r angen i gynyddu ein capasiti ymchwil a'n gallu i gefnogi gofynion rheoli gwybodaeth arolygwyr, a rhoi cynlluniau ar waith i benodi swyddog ymchwil a datblygu;<br>• sefydlu cysylltiadau a gweithio'n agosach â Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru;<br>• ystyried gwaith yr Is-adran Safonau Ysgolion a Chyflawni ac unrhyw newidiadau ym mholisïau a threfniant Llywodraeth Cymru er mwyn ategu yn hytrach na dyblygu'r broses casglu gwybodaeth am ysgolion;<br>• darparu gwybodaeth am gyfran yr ysgolion a darparwyr ôl-16 a arolygwyd a gafodd radd dda neu ragorol, er mwyn llywio Llywodraeth Cymru wrth asesu cynnydd mentrau ei Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys ei Chynllun Gweithredu Gwella Ysgolion;<br>• parhau i weithio gydag AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu dull cyffredin o reoli data a chynnal data mewn perthynas â'r meysydd hynny lle byddwn yn arolygu ar y cyd; a<br>• datblygu ein Huned Ystadegol er mwyn cynyddu gallu i ddarparu data perthnasol ac amserol i arolygwyr yn ystod arolygiadau a gweithgarwch cylch gwaith. |

## Adroddiadau thematig

DP

Mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol y Gweinidog, cyhoeddom **12** o adroddiadau yn ystod 2013-2014 ar y pynciau canlynol.

Roedd **pob un o'r 12** o adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2013-2014 (**100**%) o fewn y terfynau amser a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 | Mehefin 2013 |
| HMS statudol mewn ysgolion | Mehefin 2013 |
| Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd | Mehefin 2013 |
| Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin | Mehefin 2013 |
| Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion | Gorffennaf 2013 |
| Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd | Gorffennaf 2013 |
| Effaith absenoldeb athrawon | Medi 2013 |
| Hyfforddiant ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig | Hydref 2013 |
| Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 | Hydref 2013 |
| Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol | Rhagfyr 2013 |
| Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir | Rhagfyr 2013 |
| Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol | Rhagfyr 2013 |

**Astudiaeth achos – sut yr ymatebom i bwysigrwydd mynd i'r afael â thlodi**

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, wedi tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael ag effaith tlodi. O ganlyniad, mae Estyn wedi derbyn llawer o wahoddiadau i rannu ein canfyddiadau ynglŷn ag ysgolion sy'n lleihau effaith tlodi (neu amddifadedd neu anfantais) ar ddeilliannau addysgol.

Yn Rhagfyr 2013, cyhoeddom 'Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol', sef y trydydd mewn cyfres o arolygon sy'n edrych ar sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru'n mynd i'r afael â thlodi ac anfantais plant er mwyn gwella cyflawniad a lles dysgwyr. Cyflwynodd y ddogfen gyfres o astudiaethau achos, yn dangos sut mae ysgolion gwahanol wedi cymryd camau penodol, gwneud gwaith amlasiantaeth, cydlynu a rheoli gweithio mewn partneriaeth, cydweithio ag ysgolion eraill a mabwysiadu cyfres o fentrau eraill i wneud cynnydd. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar y modd y mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â thlodi ac ar ddatblygu strategaethau i arfarnu effaith eu dulliau ar leihau effaith anfantais, er enghraifft, drwy ddefnyddio 'offeryn mapio teuluoedd sy'n agored i niwed' i nodi a thargedu angen.

Mae'r arolwg yn argymell bod ysgolion yn mabwysiadu systemau clir ar gyfer gweithio gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo dysgwyr dan anfantais, a bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda gwasanaethau perthnasol i fapio anghenion penodol disgyblion difreintiedig a'u teuluoedd a rhannu'r wybodaeth hon gydag ysgolion ac asiantaethau eraill.

Cafodd yr arolwg dderbyniad da, ac rydym wedi parhau i wneud cyflwyniadau ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais; er enghraifft, yn ddiweddar yn y Sefydliad Materion Cymreig, sef melin drafod polisi Cymreig, lle daeth cynrychiolwyr o ystod eang o gefndiroedd ynghyd a bu'n cynnwys llunwyr polisi. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi arolygon a deunyddiau pellach ac wedi cyflwyno ein cynhadledd ein hunain ar y thema ym Mai 2014.

**Astudiaeth achos – sut gwnaeth yr adroddiad ar hyfforddiant mewn adeiladu gryfhau ein perthynas â rhanddeiliaid allweddol**

Yn Hydref 2013, cyhoeddom adroddiad cylch gwaith ar 'Hyfforddiant ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig'. Y brif neges yn yr adroddiad yw bod yr holl sefydliadau addysg bellach a'r darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cyflwyno rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn parhau i gyflwyno'r cymwysterau medrau adeiladu traddodiadol craidd sydd wedi bod ar gael ers blynyddoedd lawer ac y bu galw amdanynt ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, er y bu newidiadau diweddar i gynnwys cymwysterau adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, nid ydynt bob amser yn llawn fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol.

Cymerodd Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain – Cymru (BACH Cymru) y cyfle i ystyried cynnwys yr adroddiad a'i argymhellion, a phwysleisio ar yr un pryd eu cefnogaeth i welliannau yn y sector hyfforddiant adeiladu. Ysgrifennwyd ymateb defnyddiol iawn ganddynt i'r adroddiad sydd wedi creu deialog iach iawn rhwng Estyn a'r sector, gan gynnwys y cynnig i'r arweinydd sector ar gyfer dysgu yn y gwaith fynychu cyfarfodydd BACH Cymru i drafod cynnydd yn erbyn argymhellion y cylch gwaith.

## Amcan 3: Adeiladu gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Yr hyn rydym wedi'i wneud...

| | |
|---|---|
| **1** | **Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi a chynadleddau wedi'i harwain gan Estyn**<br><br>• cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant diweddaru ar gyfer yr holl arolygwyr allanol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal medrau arolygu proffesiynol cyfredol;<br>• hyfforddi carfan newydd o arolygwyr lleyg ar gyfer arolygiadau cynradd ac uwchradd;<br>• cyflwyno hyfforddiant allanol arolygwyr cymheiriaid er mwyn galluogi8 ymarferwyr cyfredol i gyfranogi mewn gweithgarwch arolygu a sicrhau eu bod yn mynd â medrau newydd ac arbenigedd yn ôl i'w sefydliadau;<br>• diweddaru ein hyfforddiant i enwebeion ar-lein;<br>• defnyddio enwebai hyfforddedig (o'r darparwyr unigol sy'n cael eu harolygu) i weithredu fel cyswllt i'r darparwr a bod yn aelod o'r tîm arolygu;<br>• cyhoeddi deunyddiau hyfforddi dethol ar-lein yn yr ystafell arolygu rithwir ar gyfer arolygwyr;<br>• parhau i gyflwyno'r rhaglen genedlaethol o hyfforddiant arolygwyr i arweinwyr systemau;<br>• cynnal gweithdy o uwch reolwyr o arolygiaethau addysg Cymru, yr Alban, Lloegr, Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon, er mwyn trafod risgiau strategol lefel uchel, adeiladu gallu yn y gweithlu addysg ac addysg ac arweinyddiaeth;<br>• cyflwyno'r gynhadledd teithiau gwella i arweinwyr ysgolion; a<br>• pharhau i gyflwyno hyfforddiant/cynadleddau sector yn seiliedig ar adroddiadau cylch gwaith Estyn. |
| **2** | **Nodi a lledaenu arfer orau a deunyddiau ategol i helpu ysgolion a darparwyr eraill gyda'u rhaglenni hyfforddi**<br><br>• sicrhau bod staff Estyn yn ymgyfarwyddo â'r polisi Arfer Orau, gan ddefnyddio barnau, trwy gyfarfodydd corfforaethol, ynglŷn â'r ffyrdd yr ydym yn diffinio, nodi a hyrwyddo arfer orau;<br>• defnyddio tystiolaeth o arolygu a gweithgarwch cylch gwaith i nodi arfer orau ymhlith ymarferwyr.<br>• trefnu bod astudiaethau achos o arfer orau yn hygyrch i arolygwyr, darparwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ar ein gwefan ac yn adroddiad blynyddol PAEM;<br>• amlygu a lledaenu arfer orau fel rhan o'n gweithgareddau arolygu, trwy gynadleddau arfer orau, fforymau rhanddeiliaid rhwydweithiau sector, cysylltiadau arolygwyr cyswllt ag awdurdodau lleol, cylchlythyrau Estyn a thrwy ein gweithgareddau i lywio datblygu polisi cenedlaethol gan Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru;<br>• ymgysylltu â darparwyr, rhanddeiliaid eraill a chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio i hyrwyddo'n fwy effeithiol defnydd o'r arfer orau a nodwn ac a |

| | |
|---|---|
| | gyhoeddwn;<br>• adolygu a monitro’r adran arfer orau ar wefan Estyn, er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi mynediad i astudiaethau achos ansawdd da o arfer orau sy’n rhoi enghreifftiau cymhellgar o arfer orau sy’n dylanwadu ar waith darparwyr;<br>• fel rhan o’r gofynion ar gyfer datblygu llwyfan gwefan newydd Estyn, cynnwys dyluniad a fydd yn ymateb i dechnoleg symudol yn ogystal â ffrydiau RSS categoreiddiedig er mwyn hyrwyddo arfer orau i randdeiliaid; ac<br>• er nad ydym eto wedi datblygu adnoddau amlgyfrwng i hyrwyddo arfer orau, cynllunio i greu ffilmiau byr astudiaethau achos i ategu deunyddiau hyfforddiant mewn swydd (HMS) i ysgolion ar fynd i’r afael â thlodi ac anfantais. |
| **3** | **Datblygu’r defnydd o adroddiadau cyngor cenedlaethol (cylch gwaith) Estyn i ddarparu deunyddiau y gellir eu defnyddio gan ysgolion a darparwyr eraill yn eu rhaglenni hyfforddi eu hunain**<br><br>• rhoi gwybod ymlaen llaw am ddyddiadau cyhoeddi adroddiadau cylch gwaith Estyn drwy ein gwefan, ein cylchlythyr a digwyddiadau rhanddeiliaid sector fel bod awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr eraill yn gwybod am adroddiadau sydd ar ddod er mwyn eu helpu i gynllunio’u digwyddiadau hyfforddi eu hunain;<br>• datblygu pecynnau gweithgareddau ymarferwyr ar gyfer penaethiaid adran neu gydlynwyr pwnc i’w defnyddio ar gyfer adroddiadau pwnc y cylch gwaith;<br>• nodi cynadleddau neu gyfarfodydd presennol lle gall y negeseuon o adroddiadau cylch gwaith perthnasol gael eu rhannu trwy gyfres o gyflwyniadau sleidiau ar gyfer pob cylch gwaith, gan ddarparu trosolwg sydyn i staff er mwyn deall y canfyddiadau a’r argymhellion allweddol;<br>• datblygu deunyddiau hyfforddi ar gyfer pob adroddiad cylch gwaith, i’w defnyddio gan ysgolion a darparwyr yn eu rhaglenni HMS;<br>• cyhoeddi compendiwm blynyddol o adroddiadau cylch gwaith ar wefan Estyn, a ddylai ddarparu cyfeiriad hawdd at y negeseuon allweddol o’r holl adroddiadau cylch gwaith a gyhoeddwyd yn y flwyddyn flaenorol; a<br>• pheilota’r defnydd o arolygwyr cymheiriaid yn ystod dau o arolygon cylch gwaith Estyn a chynllunio cyfleoedd i arolygwyr cymheiriaid wneud cais i fod yn rhan o’r rhain yn 2014-2015. |
| **4** | **Defnyddio adroddiad blynyddol PAEM ar gyfer 2012/2013 i ddarparu deunyddiau y gellir eu defnyddio gan ysgolion a darparwyr eraill yn eu rhaglenni hyfforddi eu hunain**<br><br>• cyhoeddi gwe-ddarllediad ar yr adroddiad blynyddol am addysg a hyfforddiant, yn cynnwys cyfres o ddarparwyr yn disgrifio sut yr aethant ati i ddefnyddio’r adroddiad; a<br>• chael lansiad o’r adroddiad ar-lein, gyda chryn sylw yn y cyfryngau. |

| | |
|---|---|
| **5** | **Datblygu a meithrin partneriaethau cadarn gyda'n rhanddeiliaid a darparwyr**<br><br>• cwblhau adolygiad o'n Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, sydd wedi arwain at Strategaeth newydd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid;<br>• cynnal fforymau rhanddeiliaid cenedlaethol a sector llwyddiannus fel rhan o'r Strategaeth newydd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid;<br>• rhannu ein syniadau gyda rhanddeiliaid drwy ein fforymau a thrwy sesiynau rhannu gwybodaeth;<br>• datblygu a monitro ein gwefan a'n hallrwyd i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi a darparu gwybodaeth i randdeiliaid;<br>• datblygu 'Newyddion Estyn', ein cylchlythyr allanol, i'w wneud yn fwy deniadol yn weledol ac yn hygyrch i'n holl randdeiliaid; yn ogystal, mae e-dafliadau misol i'n rhanddeiliaid yn cynnwys astudiaethau achos newydd;<br>• parhau â chysylltiadau â chyrff proffesiynol ac addysgu, fel y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Undeb Athrawon Cymru (UCAC), y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr; a<br>• pharhau â chysylltiadau â chyrff rhwydweithio proffesiynol, fel Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), ColegauCymru/CollegesWales, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE Cymru), Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chymdeithasau proffesiynol athrawon a darlithwyr. |
| **6** | **Cefnogi datblygiad parhaus darparwyr**<br><br>• defnyddio tystiolaeth o weithgarwch arolygu a gweithgarwch cylch gwaith i nodi arfer orau ymhlith ymarferwyr;<br>• sicrhau bod ein hadroddiadau arolygu a'n gweithgarwch dilynol, lle bo'n briodol, yn cynnwys sylwadau ar arfer orau er mwyn llywio darparwyr pan fyddant yn datblygu eu darpariaeth eu hunain;<br>• amlygu a lledaenu arfer orau fel rhan o'n gweithgarwch dilynol;<br>• parhau i sicrhau bod gwybodaeth gyfoes gan randdeiliaid am yr astudiaethau achos mwyaf diweddar - eto mae'r her yn parhau i annog mwy o ymarferwyr i ddefnyddio ein hastudiaethau achos trwy wefan Estyn ac i nodi strategaethau effeithiol i hyrwyddo arfer orau'n ehangach;<br>• ymgysylltu â darparwyr i gynorthwyo â lledaenu arfer dda, gan gynnwys drwy fforymau rhanddeiliaid, trafodaethau yn ystod arolygiadau, gweithgareddau cylch gwaith, cynadleddau a chyflwyniadau i ystod o grwpiau, yn cynnwys CLlLC, CCAC, aelodau a swyddogion awdurdodau lleol, swyddogion consortia rhanbarthol, penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr;<br>• parhau i rannu arfer dda ar draws sectorau a rhwng cyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio yn ehangach, drwy Arolygu Cymru a gwefan, digwyddiadau a chyhoeddiadau Estyn;<br>• monitro effeithiolrwydd ein harweiniad i ddarparwyr ar hunanarfarnu, trwy dystiolaeth o arolygu, gweithgarwch dilynol, ymweliadau cyswllt a thrafodaethau gyda darparwyr; a |

| | |
|---|---|
| | • chynnal diweddariad o'n llawlyfrau hunanarfarnu ar gyfer pob sector o ganlyniad i adolygiad yn 2013. |
| **7** | **Gwella ein gallu technolegol**<br><br>• gwella'r arfer o goladu a lanlwytho astudiaethau achos arfer dda drwy grwpio gwybodaeth, fel gwybodaeth cylch gwaith ac arfer orau, yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru;<br>• rhoi gwybod am ddeilliannau ar ein gwefan a thrwy hysbysiadau e-bost;<br>• cynnal arbenigwr ystadegol i gynghori a chefnogi AEM mewn perthynas â chronfeydd data perthnasol;<br>• defnyddio adran 'Adeiladu Gallu' gwefan Estyn i ledaenu hyfforddiant ar-lein, deunyddiau hyfforddi ac arfer orau i'r sectorau addysg a hyfforddiant;<br>• ymgorffori dulliau dysgu wedi'u seilio ar TG wrth hyfforddi arolygwyr cymheiriaid, gan ddefnyddio technolegau rhyngweithiol ar-lein; a<br>• datblygu Allrwyd ac Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) Estyn fel bo'n briodol i gynorthwyo â chyflawni Amcan Strategol 3. |

**Sylwadau, ymholiadau a chwynion**

Fel sefydliad, rydym yn cymryd pob sylw, ymholiad a chwyn o ddifrif a byddwn yn ymateb i bob cwyn yn llawn, yn deg ac mor gyflym â phosibl. Yn 2013-2014, fe wnaethom ddelio ag 11 o gŵynion ffurfiol.

Hefyd, mae gan Estyn ddyletswydd statudol i ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd amserol.

**Ymateb i gŵynion:**

Cyfanswm y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd yn 2013-2014: **11**

| Dyddiad | Canlyniad | Testun y gŵyn |
|---|---|---|
| Ebrill 2013 | Ni chadarnhawyd | Adolygu cais Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud ag arolygiad ysgol uwchradd |
| Mai 2013 | Ni chadarnhawyd | Barnau arolygiad ysgol uwchradd, ymddygiad, proses, a safon ac ansawdd gwaith Estyn |
| Mai 2013 | Ni chadarnhawyd | Amserau paratoi ar gyfer gwersi, gweithio y tu allan i oriau |
| Mai 2013 | Ni chadarnhawyd | Ymddygiad arolygydd; y broses sicrhau ansawdd ar arolygwyr |
| Mai 2013 | Cadarnhawyd yn rhannol | Cynnwys yr adroddiad arolygu a barnau |
| Gorffennaf 2013 | Ni chadarnhawyd | Materion cyfathrebu rhwng rhieni ac ysgol |
| Gorffennaf 2013 | Cadarnhawyd yn rhannol | Ymddygiad arolygydd a sicrwydd barnau |
| Gorffennaf 2013 | Cadarnhawyd yn rhannol | Y broses arolygu a llunio barnau |
| Awst 2013 | Cadarnhawyd yn rhannol | Argymhellion adroddiad drafft |
| Hydref 2013 | Ni chadarnhawyd | Y broses arolygu, ymddygiad yr ACof a barnau |
| Mawrth 2014 | Cadarnhawyd yn rhannol | Newid barn ar gyfer adroddiad a chyfathrebu/ ymddygiad yr ACof |

**Ceisiadau a gafwyd dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:** DP

**27** o geisiadau

Cwblhawyd 26 o fewn y targed o 20 diwrnod gwaith. Cynhaliwyd pum adolygiad yn ystod 2013-2014.

**Ceisiadau a dderbyniwyd dan y Ddeddf Diogelu Data** DP

**18** o geisiadau

Cwblhawyd **100**% o fewn y targed o 40 diwrnod calendr o dderbyn y tâl a thystiolaeth o adnabyddiaeth.

Caiff ceisiadau gwrthrych am wybodaeth sy’n cynnwys ffurflenni arsylwi gwersi eu cyhoeddi dan y Ddeddf Diogelu Data a’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Y targed ar gyfer cwblhau’r ceisiadau hyn yw 20 diwrnod gwaith yn unol â’r targed ar gyfer ymateb i geisiadau’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Astudiaeth achos – sut mae Estyn yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo ‘Teithiau gwella’**

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2013, rhoesom gipolwg o’r nodweddion cyffredin a ddangosir gan ysgolion sydd wedi gwella’u darpariaeth o fannau cychwyn gwahanol. Mae’r adroddiad *Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd* yn cynnwys astudiaethau achos gan athrawon presennol i ddisgrifio sut maent wedi rhoi hwb i safonau a pherfformiad yn eu hysgol.

Mae Ysgol Uwchradd John Summers, Sir y Fflint, yn darparu un o’r astudiaethau achos yn yr adroddiad ac mae’n ysgol sydd wedi teithio o fod yn anfoddhaol yn 2005, i fod yn ysgol dda yn 2011. Yn yr adroddiad, mae’r pennaeth yn myfyrio ar y tri ffactor a gafodd yr effaith fwyaf ar wella safonau, sef: diwylliant yr ysgol, ansawdd yr addysgu a’r dysgu, a’r prosesau sicrhau ansawdd.

Yr ysgolion astudiaethau achos ‘arfer orau’ a gynhwyswyd yn yr adroddiad yw:

- Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, Abertawe
- Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint
- Ysgol Uwchradd John Summers, Sir y Fflint
- Ysgol Uwchradd Mary Immaculate, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd y Drenewydd, Powys
- Ysgol Gyfun Oakdale, Caerffili
- Ysgol Olchfa, Abertawe
- Ysgol Gyfun Sandfields, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Bryn Elian, Conwy
- Ysgol Cwm Rhymni, Caerffili
- Ysgol Glan-Y-Môr, Gwynedd
- Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe

Yn ystod haf 2013, cynhaliom dair cynhadledd ar gyfer penaethiaid a oedd yn arddangos ysgolion yr astudiaethau achos ac yn cyflwyno model ar gyfer gwella ysgolion yn seiliedig ar waith yr ysgolion astudiaethau achos a’n canfyddiadau o arolygu. Mynychwyd y cynadleddau hyn gan niferoedd da, a chawsant dderbyniad da iawn.

**Astudiaeth achos – sut mae 'Ystafelloedd Arolygu Rhithwir' yn gwneud arolygu'n fwy effeithlon**

Mae datblygiad ystafell arolygu rithwir (YAR) ar y we gan Estyn wedi cael ei gydnabod fel offeryn pwysig i reoli a chyflwyno arolygiadau heddiw yn effeithlon. Mae'r system yn galluogi ysgolion i lanlwytho gwybodaeth ar gyfer yr arolygwyr cyn eu hymweliad ac i lawrlwytho arweiniad gan yr arolygiaeth ynglŷn â'r broses arolygu. Yr YAR hefyd yw'r man lle gall ysgolion gael mynediad i arweiniad yr enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad. Mae set gynhwysfawr o ddogfennau a fideos arweiniad ar gael ar wefan Estyn i helpu darparwyr i ddeall a defnyddio'r system.

Mae'r YAR yn galluogi gweinyddwyr i sefydlu a rheoli arolygiadau; gall arolygwyr wedyn gipio eu barnau arolygu all-lein a'u rhannu gydag aelodau'r tîm drwy eu lanlwytho i'r YAR. Mae Ffurflen Farnau (FfF) Estyn yn ganolog i'r broses arolygu. Mae rhannau pwrpasol o'r we yn darparu swyddogaeth gymhleth i goladu barnau o nifer o ddogfennau Word, gan gynhyrchu Adroddiad Arolygu terfynol yn y pen draw.

Oherwydd lefelau amrywiol cysylltedd â'r rhyngrwyd ar hyd a lled Cymru, mae Estyn wedi datblygu offeryn all-lein hefyd, sy'n galluogi arolygwyr i wneud rhywfaint o'r gwaith y mae'r YAR ar-lein yn ei wneud ar eu cyfrifiaduron eu hunain, heb yr angen am fynediad i'r rhyngrwyd pan fyddant allan yn y maes.

Gellir cael mynediad i holiaduron ar-lein hefyd yn yr YAR, gan alluogi dysgwyr, rhieni a darparwyr i lenwi holiaduron cyn-arolygiad ac ôl-arolygiad. Mae strwythur yr holiadur a'r cwestiynau yn darparu cyfres o adroddiadau i arolygwyr a dadansoddiad manwl o holiaduron. Arddangosir y rhain, ar gyfer yr Arolygydd Cofnodol, yn adran 'dogfennau arolygu' yr YAR.

Defnyddir yr YARau hefyd ar gyfer gwaith arolygu cysylltiedig, yn cynnwys:

- gweinyddu arolygiadau dilynol;
- cofnodi ymweliadau monitro blynyddol; ac
- fel llwyfan a rennir i awdurdodau lleol osod dogfennau ar gyfer ein swyddogion cyswllt.

Bydd gwelliannau i'n gwasanaethau ac arloesi pellach yn y maes TG yn gweld datblygiadau pellach i'r YAR. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gweithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill drwy'r YAR, er enghraifft wrth gyflawni arolygiadau adran 50 o addysg enwadol.

## Egwyddor cyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau'

Yr hyn rydym wedi'i wneud...

**Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau'**

- cynnal trefniadau llywodraethu cadarn trwy gydol y flwyddyn – mae ein fframwaith sicrwydd wedi'i grynhoi ar ffurf diagram (gweler y Datganiad Llywodraethu, tudalen 54). Cryfhawyd ein Bwrdd Strategol a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan ychwanegu cyfarwyddwr/aelod anweithredol wedi'i gyfethol;
- drwy ein prosesau rheoli risg, sicrhau adolygu ac asesu risgiau'n rheolaidd ar draws y sefydliad (trosglwyddodd ein cofrestr risgiau i lwyfan SharePoint i wella olrhain gweithredoedd a rheolaethau rheoli risg);
- gweithio'n agos â: ein harchwilwyr mewnol i ddatblygu rhaglen archwilio a oedd yn rhoi sicrwydd rheoli ynglŷn â phrosesau allweddol a meysydd risg; a'n harchwilwyr allanol fel bod Estyn yn cyhoeddi cyfrifon diamod ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-2013 yn brydlon.
- cynnal rheolaeth fanwl ar wariant, gan gynyddu nifer y staff sy'n gysylltiedig â'r broses rheoli'r gyllideb. (Darparom arbedion sylweddol yn erbyn ein dyraniad cyllid gwreiddiol, sydd wedi cefnogi trosglwyddo cyllid i feysydd rhaglen eraill o fewn cyllideb gyffredinol Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllideb Estyn);
- recriwtio AEM newydd er mwyn cyflawni rhaglen waith sy'n ehangu ac i gynyddu nifer yr arolygiadau a gyflawnir gan dimau arolygu mewnol – ond hefyd cynnal hyblygrwydd yn y gyllideb drwy barhau i ddefnyddio Arolygwyr Ychwanegol wedi'u secondio. Hefyd, parhaodd ein rhaglen secondio i gefnogi datblygu medrau a gwybodaeth o fewn y darparwyr/sectorau sy'n cyflogi pob secondai;
- cynnal hyblygrwydd cyllidebol o fewn ein swyddogaethau cymorth drwy fodloni gofynion adnoddau ychwanegol a chyflwyno prosiectau datblygu newydd trwy drefniadau staff dros dro;
- parhau i ddefnyddio adborth ar wasanaethau cymorth i fireinio a gwella gwasanaethau, er enghraifft drwy wella ein trefniadau cymorth arolygu a phrosesau contractio. Mae SharePoint wedi bod yn ddatblygiad mawr trwy gydol y flwyddyn, yn hwyluso cyfathrebu gwell, llifoedd gwaith awtomatig a gwelededd/adrodd lefel uwch yn erbyn dangosyddion perfformiad;
- cychwyn nifer o ddatblygiadau technoleg gwybodaeth, gan gynnwys gwaith ar adnewyddu gwefan Estyn a datblygu safle ar y we ar gyfer cynnal a diweddaru Proffiliau Arolygwyr (allanol);
- adolygu ein trefniadau cynnal systemau gwybodaeth a rhoi newidiadau ar waith i wella cost-effeithiolrwydd a threfniadau parhad busnes;
- cyflawni cam olaf y rhaglen datblygu staff yn llwyddiannus ar gyfer pob aelod o staff y Gwasanaethau Corfforaethol. Arfarnwyd y rhaglen mewn cyfres o weithdai ac fe'u defnyddiwyd i nodi'r camau nesaf sydd eu hangen i gynnal lefelau uchel o ymgysylltiad staff a gwella gwasanaethau'n barhaus; a
- gweithredu 'system rheoli perfformiad parhaus' newydd ar waith ar gyfer

pob aelod o staff, sy'n rhoi pwyslais cyfartal ar y 'canlyniadau' a gyflawnir yn erbyn amcanion ac 'ymddygiadau' (yn erbyn fframwaith cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil) fel y'u dangosir gan staff. Mae'r system newydd wedi cynorthwyo ffocws ar wella perfformiad, gydag unigolion yn cymryd mwy o berchenogaeth am reoli eu perfformiad a'u datblygiad.

## Egwyddor cyflawni 2: Datblygu Estyn yn 'gyflogwr enghreifftiol'

Yr hyn rydym wedi'i wneud...

**Fel sefydliad, mae Estyn wedi hyrwyddo:**

- **dwyieithrwydd;**
- **cynaliadwyedd;**
- **cydraddoldeb ac amrywiaeth;**
- **iechyd a lles;**
- **hawliau dynol; a**
- **chynhwysiant.**

Rydym wedi:

- rhoi ein cynllun gweithredu ar waith mewn perthynas â'n Cynllun Iaith Gymraeg, wedi cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg trwy gydol y flwyddyn i bob un o'r staff a grwpiau, gyda sesiynau'n cael eu cynnal ar lefelau cymhwysedd amrywiol;
- parhau i recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn cynnal ein lefelau staff sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynyddom nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn ein swyddogaeth cymorth corfforaethol;
- cynnal ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, yn ein prosesau arolygu ac yn y ffordd y cyflawnwn ein gwaith;
- paratoi ar gyfer ailasesiad o achrediad Y Ddraig Werdd, gan ddiweddaru ein hamcanion amgylcheddol a hyrwyddo mentrau cynaliadwyedd. Fe wnaeth archwiliad cyn-asesiad ein canmol ar ein harferion, ac yn arbennig ein defnydd o dechnoleg gwybodaeth i leihau defnydd o bapur a lleihau ein hôl-troed carbon (gweler ein gwefan i gael mwy o wybodaeth);
- rhoi'r cynllun gweithredu ar waith sy'n cefnogi cyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd. Fe wnaethom ymgorffori erthygl reolaidd ar faterion cydraddoldeb yn ein cylchlythyr mewnol 'Eich Estyn' er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ymhellach. Mewn cydweithrediad â Grŵp Dysgu a Datblygu Arolygu Cymru, rydym wedi cael pecyn e-ddysgu i hyrwyddo gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb ar draws y pedair Arolygiaeth. Mae'r rhaglen a ddyfeisiwyd yn adnodd e-ddysgu rhyngweithiol sy'n rhoi cipolwg ar themâu allweddol Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r nodweddion gwarchodedig, a hefyd yn rhoi cyflwyniad ymarferol i nodi ac ymateb i fwlio ac aflonyddu, a deall

rhagfarnau anymwybodol. Fe wnaeth pob aelod o staff a oedd yn cychwyn yn Estyn ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn ystod 2013-2014;

- parhau i gynnal yr arferion da sydd wedi arwain at ein hachrediad safon 'Aur' Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP) a ddyfarnwyd i ni dair blynedd yn ôl (gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 30). Parhaodd ein Grŵp Ymgysylltu â Chyflogeion i weithredu camau priodol a nodwyd o adolygiadau mewnol, adborth uniongyrchol gan staff ac o ganlyniadau ein Harolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil blynyddol, a ddangosodd unwaith eto bod staff Estyn yn ymroddedig ac yn ymrwymedig iawn i amcanion y sefydliad;
- parhau i roi pwys mawr ar les staff, er enghraifft drwy ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o bwysau rhaglenni gwaith a chynyddu ein gallu arolygu mewnol er mwyn helpu bodloni gofynion gwaith. Hefyd, fe wnaethom gynnal a hyrwyddo ein mecanweithiau cymorth cyflogeion, fel ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion ac archwiliadau iechyd blynyddol;
- adolygu ein hasesiadau effaith ar gyfer cynlluniau a pholisïau nid yn unig i ymdrin â gofynion statudol cydraddoldeb a hawliau dynol, ond hefyd i ystyried ystod lawn yr amcanion busnes a'n hegwyddorion cyflawni cyffredinol;
- cynnal deialog rheolaidd gydag undebau llafur cydnabyddedig ac ymgysylltu â chynrychiolwyr mewn perthynas â datblygu polisi staff (roedd diweddariadau i bolisïau Estyn yn adlewyrchu arfer dda a chanllawiau o bolisïau a ddatblygwyd yn ganolog) a hefyd cytuno i barhau i gysgodi codiad cyflog Llywodraeth Cymru i'r graddau bod ein cyllideb yn caniatáu hynny;
- parhau i ddatblygu ein safle mewnrwyd, yn seiliedig ar lwyfan SharePoint, sydd wedi helpu mireinio ein harfer rheoli cofnodion ac wedi gwella'r cyfathrebu â staff. Rydym hefyd wedi ehangu ein prosesau cyfathrebu allanol, gyda mwy o ddefnydd o e-dafliadau a chylchlythyrau rheolaidd i randdeiliaid, a chynnwys gwefan ychwanegol (cafodd ein gwefan ei harchwilio a datblygwyd manyleb gennym ar gyfer safle newydd a fydd yn cael ei ddatblygu a'i lansio yn ystod 2014); a
- pharhau i gyflwyno strategaeth hyfforddi a datblygu sy'n adeiladu gwybodaeth, medrau ac arbenigedd yn fewnol ac yn cefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth, gyda meysydd hyfforddi penodol, yn cynnwys: medrau ysgrifennu uwch, medrau cyfryngau a mentora. Defnyddiom sesiynau datblygiad proffesiynol corfforaethol bob tymor ar gyfer cydweithwyr i ddiweddaru ei gilydd ar ddatblygiadau sefydliadol a datblygiadau o fewn sectorau arolygu penodol. Canolbwyntiodd ein cynhadledd staff flynyddol ar y thema 'cyfathrebu'. Yn ychwanegol at hyfforddiant staff, parhaom i ddatblygu ein gallu arolygu allanol drwy ein rhaglen hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr Ychwanegol ac arolygwyr cymheiriaid. Arfarnwyd yr holl hyfforddiant a chynhyrchwyd adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn.

## Egwyddor cyflawni 3: Cydweithredu gydag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant

Yr hyn rydym wedi'i wneud...

| | |
|---|---|
| 1 | **Cydweithio lle bo'n briodol ar sail datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio (AARh) yng Nghymru.**<br><br>• sicrhau bod ein cydweithio a'n cydweithredu yn cael ei arwain gan y weledigaeth gyffredin a'r diben a gytunwyd rhwng y cyrff AARh yng Nghymru fel yr amlinellir yn y Cytundeb Strategol ar Gydweithio;<br>• dechrau llunio protocol ar gyfer ymdrin ag arolygiadau ac ymchwiliadau arbenigol ar y cyd mewn amgylchiadau eithriadol;<br>• sicrhau bod ein gweithgareddau cynllunio a rhaglennu yn cael eu cydlynu, lle bo'n briodol, â gweithgareddau'r cyrff AARh eraill fel eu bod yn creu rhaglenni gwaith cymesur sy'n osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod risgiau allweddol a phryderon yn cael eu harchwilio, gan gynnwys gwaith arolygu thematig;<br>• datblygu dulliau newydd o rannu gwybodaeth a hysbysrwydd rhwng Estyn a chyrff AARh eraill sy'n helpu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n weithredol ac yn brydlon;<br>• nodi cyfleoedd i ddod â'r wybodaeth a'r hysbysrwydd sydd gennym fel cyrff AARh yng Nghymru am wasanaethau cyhoeddus at ei gilydd, ac adrodd ar hyn mewn ffyrdd sy'n cefnogi gwella gwasanaethau, yn llywio llunio polisi ac yn cryfhau atebolrwydd cyhoeddus, fel ein gwaith gwella ar y cyd ar graffu mewn llywodraeth leol; a<br>• pharhau i fonitro'r cynnydd a wnaethom gyda chydweithio a chydweithredu, ac adrodd ar hyn yn agored ac yn ffurfiol i randdeiliaid allweddol ac i Fwrdd Strategol Estyn. |
| 2 | **Ymgymryd ag arolygiadau a gwaith cylch gwaith ar y cyd ag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill, fel y bo'n briodol.**<br><br>• cyfrannu at arolygiadau ar y cyd o ddysgu troseddwyr gydag Arolygiaeth Carchardai EM a Gwasanaethau Prawf EM;<br>• gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu fframwaith arolygu a chylch gwaith ar gyfer consortia rhanbarthol;<br>• parhau i weithio gydag AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;<br>• sicrhau bod arolygiadau o ysgolion a cholegau sydd â darpariaeth breswyl yn cael eu cydlynu'n effeithiol gan Estyn ac AGGCC;<br>• parhau i gynnwys arolygwyr o AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru wrth arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, fel bo'n briodol;<br>• cydweithio ag arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr eraill, yn arbennig AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, o ran arolygu gwasanaethau cyhoeddus a gwaith thematig, yn cynnwys unrhyw arolygiadau neu |

ymchwiliadau arbenigol, lle y bo'n briodol

- cydweithio ag Education Scotland i ddatblygu system i ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar uno a chau ysgolion;
- gweithio ag Ofsted ar arolygiadau ar y cyd o ddarparwyr, lle bo hynny'n briodol;
- gweithio gydag Ofsted, Education Scotland a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (ETI) yng Ngogledd Iwerddon i hwyluso cysgodi arolygiadau o sefydliadau addysg bellach ac ysgolion yn ein priod wledydd gan AEM;
- parhau i weithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) lle mae ein meysydd cyfrifoldeb yn gorgyffwrdd, i rannu gwybodaeth a nodi meysydd sy'n peri pryder; a
- pharhau i weithio â Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) ar faterion yn ymwneud â safonau ar gyfer athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus ac arolygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru.

Yn ogystal, rydym wedi:

- parhau â'n gwaith gydag AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu system rhannu gwybodaeth ddigidol ar y cyd ar gyfer cyrff AARh yng Nghymru;
- cefnogi gwaith Rheolwr Prosiectau Arolygu Cymru a Chydlynydd Arolygu Cymru wrth hwyluso cydweithio trwy ddarparu gofod swyddfa a chyfleusterau TGCh yn Estyn;
- defnyddio canlyniadau cydweithredu wrth arolygu ac mewn gweithgarwch cylch gwaith i wella ansawdd cyngor ar lunio polisi a sicrwydd cyhoeddus; ac
- ymateb i Gam 1 adolygiad Llywodraeth Cymru o arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru.

**Astudiaeth achos – sut mae arolygwyr yn elwa ar gydweithio**

Roedd cynllun blynyddol Estyn ar gyfer 2013-2014 yn cynnwys egwyddor cyflawni benodol ynglŷn â chydweithredu ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant, yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau:

1 Yn Nhachwedd 2013, cyfrannodd Estyn at weithdy ar graffu ar addysg yn effeithiol mewn awdurdodau lleol ar gyfer aelodau etholedig ac uwch swyddogion yng nghynhadledd genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ‘Goleuni ar Graffu’.  Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod cyfraniad Estyn at y gynhadledd yn enghraifft dda o’r modd y mae arolygiaethau yn rhannu gwybodaeth a hysbysrwydd i gael effaith gadarnhaol ar gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

2 Ym Mawrth 2014, cyfranogodd Estyn yng ngham cyntaf ymweliad cyfnewid â’r Adran Addysg a Sgiliau yng Ngweriniaeth Iwerddon.  Bu arolygydd o Weriniaeth Iwerddon yn cysgodi AEM yn ystod arolygiad o ysgol gynradd yn Abertawe.  Cynigiodd hyn gyfleoedd da i gymharu a chyferbynnu’r systemau gwahanol a ddefnyddir gan yr arolygiaethau.  Yr hyn a oedd o ddiddordeb arbennig i’r arolygydd o Weriniaeth Iwerddon oedd y modd y mae Estyn yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg fel rhan o’r tîm arolygu.  Roedd yn ddiddorol tu hwnt cael trafodaethau ynglŷn â’r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn llythrennedd a rhifedd a pha un a ellir cymharu’r rhain ar draws Cymru a Gweriniaeth Iwerddon neu beidio.  Mae arolygydd o Estyn yn ymweld â Gweriniaeth Iwerddon ar ddiwedd Ebrill 2014.

3 Ar ddechrau 2013, gofynnodd AGGCC p’un a allai un o’u harolygwyr gysgodi arolygiad gan Estyn o leoliad nas cynhelir.  Gwnaed trefniadau i arolygydd AGGCC ymuno ag arolygiad ym Mai 2013 o leoliad mawr mewn ysgol annibynnol.  Cysylltodd yr arolygydd arweiniol â’r ysgol a’r arolygydd o AGGCC cyn yr arolygiad i gytuno eu rôl.  Cytunodd yr ysgol y gallai AGGCC arsylwi sesiynau ar y cyd ag Estyn, a mynychu cyfweliadau gyda phersonél allweddol.  Aeth arolygydd AGGCC i bob un o’r cyfarfodydd tîm lle bu’r tîm yn ‘pwyso a mesur y dystiolaeth’ ac yn trafod barnau.  Roedd yr adborth gan yr arolygydd AGGCC yn gadarnhaol iawn ynglŷn â chynhwysedd y tîm a’r fantais iddi hi o ran datblygiad proffesiynol.

4 Yn ystod 2013, cafwyd ymweliadau gan Gyfarwyddwr TG Ofsted a chydweithwyr i drafod agweddau penodol ar TG, yn cynnwys yr ystafelloedd arolygu rhithwir a’n profiad o gaffael ‘G-cloud’.  Aeth staff Gwasanaethau Corfforaethol ati i rannu’u gwybodaeth a’u profiad o gynhyrchion TG presennol, fel yr YAR, a meincnodi ein cyflawni ac ymatebion i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Astudiaeth achos – sut y cafodd Estyn ei adolygu gan BmP**

Yn Nhachwedd 2013, cynhaliom adolygiad cynhwysfawr o gynnydd a gwelliant ers yr adolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) yn 2011. Helpodd yr adolygiad hwn ni i nodi pedair blaenoriaeth fusnes flaengar ar gyfer yr aseswyr allanol o BmP i ganolbwyntio arnynt yn eu hymweliad asesu ail-achredu yn ystod Mawrth/Ebrill 2014. Dyma oedd y blaenoriaethau:

- sicrhau bod dealltwriaeth glir ac ymrwymiad gan staff i strategaeth fusnes Estyn;
- cynllunio a datblygu gallu arweinyddiaeth a rheolaeth (cynllunio ar gyfer olyniaeth) i fodloni gofynion busnes y dyfodol;
- sicrhau bod diwylliant a phrosesau Estyn yn cefnogi gwelliant unigol a sefydliadol drwy annog a darparu amgylchedd diogelu ar gyfer herio’n adeiladol; a
- gwella perfformiad yn barhaus drwy wella a rhannu gwybodaeth sefydliadol ar draws Estyn.

Cadarnhaodd yr asesydd BmP allanol ein bod yn parhau i fodloni’r fframwaith BmP ar y lefel Aur, gan fodloni 191 o’r 196 o ddangosyddion yn y Fframwaith BmP (i fyny o 166 yn 2011).

Canfu’r asesydd bod ein ffyrdd o weithredu, adolygu a gwella ein strategaeth arweinyddiaeth a rheolaeth wedi cyflawni canlyniadau perfformiad rhagorol a gwella ymgysylltiad staff. Fe wnaeth yr asesydd ganmol pob un o’r cyflogeion am eu dewrder a’u penderfyniad o ran cynnal y ffocws sydd wedi cyflawni canlyniadau gwych.

Cafodd yr asesydd argraff arbennig gan y canlynol:

- y lefelau uchel o ymgysylltu a dealltwriaeth nodedig, gynhwysfawr a chyffredinol o amcanion Estyn;
- ein fframwaith rheoli perfformiad sy’n canolbwyntio ar ddeilliannau ac ymddygiad;
- atgyfnerthu’r dull arweinyddiaeth ddosbarthedig sy’n arwain at strwythur hyblyg yn seiliedig ar fatricsau gyda phobl yn ysgwyddo ystod o brosiectau, tasgau, ffrydiau gwaith a chyfleoedd arwain;
- ein dull creadigol o feithrin gallu, gyda strwythur clir ar gyfer datblygu arolygwyr (mewnol ac allanol);
- ymgorffori’r dull ystafell arolygu rithwir (YAR) sy’n effeithlon ac yn effeithiol, gyda’r staff yn arwain o ran ei ddatblygu;
- y cryn ymdrech a wnaed i ddatblygu mecanweithiau cydlynu a chynorthwyo arolygu sydd wedi annog datblygu gwaith tîm traws-swyddogaethol a pherthnasoedd gweithio agosach; ac
- ymdrechion parhaus i wella cyfathrebu.

**Astudiaeth achos – sut y mae ei staff yn gweld Estyn**

Mae Estyn yn cyfranogi yn Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil - sef arolwg o ymgysylltiad, agweddau a phrofiadau gweithio staff ar draws y gwasanaeth sifil ledled y DU. Mae'r canlyniadau yn ein helpu i ddeall sut mae ein cyflogeion yn teimlo ynglŷn â'u rôl a beth yw eu barn am Estyn.

Roedd canlyniadau'r Arolwg Pobl yn 2013 yn dangos bod Estyn yn parhau â lefelau uchel o ymgysylltiad sy'n sylweddol uwch na meincnodau'r gwasanaeth sifil a pherfformwyr uchel. Gyda mynegai ymgysylltu o 69%, rydym yn y pedwerydd safle o'r 98 o sefydliadau'r gwasanaeth sifil a gymerodd ran yn yr arolwg.

Yn gyffredinol, dywedodd y staff bod ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith a dealltwriaeth glir o amcanion a diben sefydliadol. Yn benodol, mae ymgysylltiad staff gwasanaethau corfforaethol wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r canlyniadau ac adborth gan staff wedi galluogi Grŵp Ymgysylltu â Chyflogeion Estyn i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion allweddol. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi meysydd i'w gwella, gan gynnwys y canlynol:

- cyfathrebu;
- hyfforddiant TG i gefnogi datblygiadau newydd;
- cyfleoedd datblygu parhaus i staff Gwasanaethau Corfforaethol;
- mynd i'r afael â materion rhaglennu gwaith;
- cynyddu ymwybyddiaeth o fwlio, aflonyddu a gwahaniaethu; a
- hyrwyddo cysondeb mewn rheoli perfformiad, a rheoli perfformiad ac ymddygiad gwael.

Mae canlyniadau Arolwg Pobl 2013 Estyn ar gael yn www.estyn.gov.uk

## Aelodau Bwrdd Estyn

Yn ystod 2013-2014, roedd y bobl ganlynol yn aelodau o Fwrdd Strategol Estyn ar gyfer y flwyddyn lawn, oni nodir yn wahanol.

### Cyfarwyddwyr anweithredol

**Mr Andrew Bellamy**, cyn uwch weithredwr yn y GIG sydd â phrofiad mewn rheoli newid a llywodraethu corfforaethol

**Dr Haydn Edwards**, ymgynghorydd addysg sydd â phrofiad mewn rheolaeth uwch a llywodraethu yn y sector cyhoeddus

**Mr Rheon Tomos,** partner yn TDE Associates ar hyn o bryd, yn aelod penodedig ac yn Is-gadeirydd Awdurdod S4C, yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio Comisiynydd y Gymraeg

Y Pwyllgor Archwilio

**Mr Arwel Thomas** (dechreuodd yn Ionawr 2014), cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd yn Llywodraeth Cymru

### Uwch swyddogion

**Mrs Ann Keane** – Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifyddu

**Mr Simon Brown** – Cyfarwyddwr Strategol

**Mr Meilyr Rowlands** – Cyfarwyddwr Strategol

Mae Estyn yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd a chofrestr buddiannau ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, y rhai sydd ar secondiad a staff dros dro. Nid oes gan yr un aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr na buddiannau arwyddocaol eraill a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.

### Cyflogau

Rhoddir manylion am gyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac uwch swyddogion eraill o Fwrdd Estyn yn yr Adroddiad Cyflogau sydd wedi'i gynnwys yn Adran 2 (Cyfrifon blynyddol 2013-2014).

Ni chaiff cyfarwyddwyr anweithredol eu talu, ond gallant hawlio honorariwm misol o £352.50 (£455.08 y mis ar gyfer cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) a chostau teithio a chynhaliaeth, yn ogystal â thaliadau honorariwm am waith ymgynghorol ychwanegol fel cymryd rhan mewn paneli recriwtio. Yn 2013-2014, cyfanswm gwerth yr hawliadau honorariwm oedd £17,096.25 a hawliwyd cyfanswm o £313.85 i ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth hefyd.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Caiff y Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol o Fwrdd Strategol Estyn, ei gadeirio gan un o'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn ei chyfrifoldebau dros ystyriaethau risg, rheoli, llywodraethu a sicrwydd, a chafwyd presenoldeb llawn yn ei bedwar cyfarfod yn ystod 2013-2014. Ni fu'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol na materion yn ymwneud â barn neu reolaeth yn ystod y flwyddyn.

## Y Pwyllgor Cyflogau

Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn is-bwyllgor sefydledig o'r Bwrdd Strategol, ac mae ganddo'r diben penodol o ddarparu cyngor ac argymhellion ar gyflog PAEM, ac am benderfynu ar gyflog aelodau eraill Estyn o'r Uwch Wasanaeth Sifil, yn seiliedig ar gyngor ac argymhellion PAEM. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan un o gyfarwyddwyr anweithredol Estyn. Cyfarfu deirgwaith yn ystod 2013-2014, ac roedd presenoldeb llawn yn y cyfarfodydd hyn. (Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 46 yn Adran 2 yr adroddiad hwn.)

# Adran 2

# Cyfrifon Blynyddol 2013-2014

## Sylwebaeth ar reolaeth

### Fformat y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan Baragraff 5(2) Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan Estyn yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro ariannol Estyn. Nid oes gan Estyn unrhyw is-gwmnïau.

### Gwybodaeth gefndir a chyllid statudol

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Corff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

### Prif weithgareddau

Mae gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ystod eang o gyfrifoldebau arolygu statudol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu cyflawni trwy raglen arolygu flynyddol sy'n cynhyrchu adroddiadau a data ar bob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Arolygu yw prif faes gweithgarwch Estyn o ran yr adnoddau a ddefnyddir.

Yn ogystal, mae Estyn yn ymgymryd ag ystod o adolygiadau ac ymchwiliadau thematig bob blwyddyn, y cytunir arnynt â Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Lluniwyd y rhain i roi cyngor i lywio datblygu, gweithredu ac adolygu polisi cenedlaethol. Mewn rhai achosion, mae'r Prif Arolygydd hefyd yn dechrau ei hadolygiadau ac ymchwiliadau ei hun.

### Prif nod ac amcanion strategol

### Ein cenhadaeth a'n gweledigaeth

Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel. Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff yn llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

### Ein gwerthoedd

Mae popeth a wnawn yn adlewyrchu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, sef:

- sicrhau bod **dysgwyr** a dinasyddion **wrth wraidd ein gwaith**;
- gweithredu gyda **didwylledd**, **uniondeb** a **gwrthrychedd**, gan ddangos y safonau gorau o ran gwasanaeth cyhoeddus;
- gweithio mewn **partneriaeth** gydag eraill, wrth gynnal ein **hannibyniaeth**;
- dangos **arweinyddiaeth** a **gwaith tîm** effeithiol ar bob lefel;
- **gwerthfawrogi pobl** a'u cyfraniadau;

- annog **cyfrifoldeb**, **blaengaredd** ac **arloesedd**; a
- meithrin amgylchedd gweithio **atyniadol** ac **iach**.

## Ein hamcanion strategol

Mae gan Estyn rôl unigryw mewn cefnogi’r ymdrech i sicrhau rhagoriaeth mewn dysgu, trwy:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru; a
- meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Dyma yw dibenion craidd ein gwaith ac mae’n hanfodol eu bod i gyd yn cael eu cyflawni mor effeithiol ag y bo modd.

Wrth wneud hynny, mae’r un mor bwysig bod Estyn yn dilyn ei egwyddorion cyflawni drwy barhau i gydweithredu ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant a thrwy ddatblygu ymhellach yn sefydliad “gwerth gorau” a chyflogwr enghreifftiol.

## Cyfle cyfartal

Mae Estyn yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac yn ymroddedig i sicrhau bod ein sefydliad yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu anghyfreithlon, erledigaeth, bwlio neu aflonyddu oherwydd oed; anabledd; rhyw; hunaniaeth rywiol (trawsrywiol); ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; cyfrifoldebau am ddibynyddion; patrymau gwaith (fel yr angen neu’r awydd i weithio oriau rhan-amser); neu ystyriaethau amherthnasol eraill.

Ni ddylai unrhyw unigolyn dderbyn triniaeth lai ffafriol oherwydd unrhyw un o’r nodweddion gwarchodedig a restrir uchod. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau nad yw unrhyw un yn cael ei roi dan anfantais gan amodau neu ofynion na allwn ddangos bod cyfiawnhad drostynt.

Disgwyliwn i gyflogeion, secondeion, a rhai eraill sy’n ymgymryd â gwaith ar ein rhan, ymddwyn yn unol â’n polisi cyfle cyfartal wrth ddelio ag aelodau’r cyhoedd ac yn eu perthynas gyda chydweithwyr.

Ni fydd Estyn yn goddef gwahaniaethu, erledigaeth, bwlio nac aflonyddu, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, yn fwriadol neu’n anfwriadol, yn erbyn unrhyw unigolyn ar unrhyw sail o gwbl gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i’r rhai a grybwyllir uchod.

Mae Estyn yn dilyn Cod Ymarfer y Gwasanaeth Sifil ar gyfer cyflogi pobl anabl, sy’n ceisio sicrhau na ddigwydd unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd, a bod cyflogaeth a dyrchafiad mewn gyrfa yn Estyn wedi’i seilio’n llwyr ar allu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn, sy’n cwmpasu 2012-2015, yn amlinellu ymrwymiad Estyn i sicrhau Cydraddoldeb a’r ffyrdd o gyflawni hyn. Gellir cael copi o’r Cynllun a’r adroddiad diweddaraf ar gynnydd yn erbyn yr amcanion, o wefan Estyn.

**Data absenoldeb salwch**

DP

| **Prif fesurau** | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **2013-2014** | **2012-2013** |
| Cyfradd absenoldeb salwch | 3.3% | 3.6% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 52% | 54% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 7.8 diwrnod | 8.4 diwrnod |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 7.6 diwrnod | 8.2 diwrnod |
| Achlysuron absenoldeb salwch | 118 achlysur | 115 achlysur |

**Lledaenu gwybodaeth**

Mae Estyn yn annog rhannu gwybodaeth a syniadau, ac yn ceisio manteisio'n llawn ar dechnoleg gyfoes i gyflawni'r nodau hyn. Mae gan Estyn wefan lle y gellir cael gwybodaeth am y sefydliad, ynghyd â'i adroddiadau a'i gyngor. Mae cyhoeddiadau ar y safle hwn wedi'u seilio ar dystiolaeth arolygu sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau ym maes addysg a hyfforddiant. Mae safle mewnrwyd ar gael i'r holl staff hefyd ar lwyfan Microsoft SharePoint. Mae Estyn yn cyflwyno 'Materion Gwaith' i'r holl staff yn rheolaidd, sy'n rhoi gwybodaeth a'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â pholisïau, gweithdrefnau, arweiniad cyffredinol a digwyddiadau sy'n effeithio ar staff a'r sefydliad cyfan. Sefydlwyd grwpiau rheoli strwythuredig i drafod a lledaenu gwybodaeth ar lefelau strategol, corfforaethol a gweithredol. Cynhelir cyfarfodydd corfforaethol a chyfarfodydd grŵp yn rheolaidd i rannu syniadau a gwybodaeth. Caiff deilliannau o gyfarfodydd eu rhannu trwy gofnodion sydd ar gael i staff. Mae Estyn yn gweithredu nifer o brotocolau gyda chyrff cyhoeddus eraill, trwy Femoranda o Ddealltwriaeth yn bennaf.

**Cynaliadwyedd**

Nid oes gofyniad ar Estyn i gynhyrchu datganiad cynaliadwyedd llawn fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn. Fodd bynnag, y llynedd parhaom â'n hymrwymiad i gynaliadwyedd drwy weithio i gyflawni ein cynllun gweithredu amgylcheddol a chadw at ein Polisi Amgylcheddol. Mae ein prosesau arolygu hefyd yn cynnwys edrych ac adrodd ar gynaliadwyedd, a'i hyrwyddo o fewn darparwyr addysg a hyfforddiant unigol.

Mae prif effeithiau Estyn ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, trafnidiaeth, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa.

Lluniwyd amcanion a thargedau ar gyfer 2013-2015 er mwyn gwella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol Estyn.

**Amcan 1** Parhau i fonitro cynhyrchiant $CO_2$ gyda'r nod o'i ostwng 5% dros y pum mlynedd nesaf (yn seiliedig ar ffigurau 2012-2013)
**Amcan 2** Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (yn seiliedig ar ffigurau 2012-2013)
**Amcan 3** Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau gwastraff sy'n deillio 1.2% o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2015 (yn seiliedig ar ffigurau 2012-2013)

**Amcan 4** Lleihau effaith Trafnidiaeth y sefydliad trwy gyfrannu at y targed lleihau $CO_2$ (T01)
**Amcan 5** Cyfleu mentrau amgylcheddol i'r cyhoedd a staff
**Amcan 6** Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu

Mae'r tabl isod yn dangos y data amgylcheddol a gasglwyd ar gyfer 2013-2014 fel y mynnir gan y **Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).**

| **Gofynion FReM ar gyfer Adrodd ar Gynaliadwyedd** | | |
|---|---|---|
| **Maes** | **Gwybodaeth nad yw'n Wybodaeth Ariannol** | **Gwybodaeth Ariannol** |
| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr:<br>• Cwmpas 1<br>• Cwmpas 2<br>• Cwmpas 3 | Trydan 186,515 cilowat<br>Nwy 75,703 cilowat<br>Dŵr 434.8 o fetrau ciwbig<br>Trafnidiaeth 95,422 cilogram o $CO_2$ | Talwyd £22,666 am drydan yn ystod 2013-2014.<br>Talwyd £3,028 am nwy yn ystod 2013-2014.<br>Talwyd £587 am ddŵr yn ystod 2013-2014.<br>Talwyd £115,014 mewn milltiredd. |
| Lleihau a Rheoli Gwastraff | • Tirlenwi 32%, 7,230 cilogram<br>• Ailgylchu 68%, 15,410 cilogram | Cyfanswm gwariant £3,500. |
| Defnyddio Adnoddau Cyfyngedig | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Caffael Cynaliadwy | Detholiad o Delerau ac Amodau Contractau Estyn<br>*"12.* ***CYNALIADWYEDD***<br>*12.1. Bydd y Contractiwr, tra bydd yn gweithio yn Adeiladau'r Cleient, yn cyflawni'r Contract yn unol â pholisïau amgylcheddol y Cleient fel yr hysbysir y Contractiwr o dro i dro a beth bynnag bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i –*<br>*12.1.1. arbed ynni, dŵr, pren, papur ac adnoddau eraill;*<br>*12.1.2. lleihau gwastraff;*<br>*12.1.3. graddol ddiddymu'r defnydd o sylweddau sy'n disbyddu oson; a*<br>*12.1.4. lleihau gymaint â phosibl y nwyon tŷ gwydr, cyfansoddion organig ffrwydrad a sylweddau eraill sy'n cael eu rhyddhau gan niweidio iechyd neu'r amgylchedd."* | |

Parhawn i adolygu a gweithredu prosesau i gefnogi ein targedau amgylcheddol. Roedd y prosesau hyn yn destun adolygiad allanol tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol a dyfarnwyd achrediad Lefel 3 y Ddraig Werdd i Estyn ym Mai 2014.

**Polisi talu**

DP

Yn 2013-2014, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar gyfer Contractau Estyn. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 99.4% o'r holl gyfryw daliadau a wnaed yn 2013-2014 (2012-2013: 99.9%).

**Digwyddiadau'n ymwneud â data personol**

Yn Adroddiad Cynnydd Interim Swyddfa'r Cabinet ar Weithdrefnau Trin Data, a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2007 ('Adroddiad Swyddogol', colofn 98WS), gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad y byddai adrannau'r llywodraeth yn cynnwys gwybodaeth am reoli risg yn eu hadroddiadau blynyddol. Yn unol â hynny, mae gofyn i Estyn adrodd ar wybodaeth mewn perthynas â digwyddiadau'n ymwneud â data personol yn ei gyfrifon adnoddau blynyddol.

**Cwmpas gofynnol data personol wedi'i ddiogelu**

Yn unol ag arweiniad y Cabinet, mae gofyn i Estyn nodi data sy'n cael ei ddal ganddo neu gan ei bartneriaid cyflwyno unigol, y gallai rhyddhau neu golli'r data hwn achosi niwed neu drallod i unigolion. Rhaid i hyn gynnwys, ar y lleiaf, yr holl ddata sy'n disgyn i un neu ddau o'r categorïau isod.

A Unrhyw wybodaeth sy'n cysylltu un neu fwy o bobl byw, adnabyddadwy â gwybodaeth amdanynt y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn peri risg sylweddol o niwed neu drallod iddynt, fel y dangosir yn y tabl isod.

| 1 Un neu fwy o'r darnau o wybodaeth y gellir eu defnyddio ar y cyd â gwybodaeth sy'n eiddo cyhoeddus er mwyn adnabod unigolyn | Wedi'i gyfuno â | 2 Gwybodaeth am yr unigolyn hwnnw y byddai ei rhyddhau yn debygol o achosi niwed neu drallod |
|---|---|---|
| Enw/cyfeiriad (cartref neu fusnes neu'r ddau)/cod post/e-bost/rhifau ffôn/ rhif trwydded yrru/ dyddiad geni<br><br>[Sylwer bod rhif trwydded yrru wedi'i gynnwys yn y rhestr hon gan ei fod yn rhoi dyddiad geni a rhan gyntaf y cyfenw yn uniongyrchol.] | | Data personol sensitif fel y'i diffinnir gan A.2 Deddf Diogelu Data, gan gynnwys cofnodion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, ac aelodaeth grwpiau<br><br>DNA neu ôl bysedd/manylion banc, ariannol neu gardiau credyd/enw bedydd mam/rhif Yswiriant Gwladol/Cofnodion treth, budd-daliadau neu bensiwn/cofnodion iechyd/cofnod cyflogaeth/presenoldeb neu gofnodion ysgol/deunydd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys amddiffyn plant a thai |

Nid yw'r rhestrau uchod yn hollgynhwysfawr.

B Unrhyw ffynhonnell wybodaeth am 1,000 neu fwy o unigolion adnabyddadwy, heblaw gwybodaeth sy'n eiddo cyhoeddus. Gallai hon fod yn gronfa ddata gyda 1,000 neu fwy o gofnodion yn cynnwys ffeithiau sy'n cael eu crybwyll ym mlwch 1, neu ffolder neu yriant electronig sy'n cynnwys 1,000 neu fwy o gofnodion am unigolion. Eto, mae hon yn safon ofynnol. Gall gwybodaeth am niferoedd llai o unigolion fod yn deilwng o'i hamddiffyn oherwydd natur yr unigolion, natur neu ffynhonnell y wybodaeth, neu raddau'r wybodaeth.

Gall digwyddiadau, y byddai eu datgelu ynddo'i hun yn peri risg annerbyniol o niwed, gael eu heithrio yn unol â'r eithriadau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gallant fod yn destun cyfyngiadau deddfwriaeth arall y DU yn ymwneud â gwybodaeth.

| **Crynodeb o ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yr adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2013-2014** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad y digwyddiad (mis)** | **Natur y digwyddiad** | **Natur y data dan sylw** | **Nifer y bobl bosibl yr effeithiwyd arnynt** | **Camau hysbysu** |
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Camau pellach ar y risg gwybodaeth** | Ni fu unrhyw ddigwyddiadau i adrodd amdanynt. Fodd bynnag, bydd Estyn yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus systemau. | | | |

| **Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yn 2013-2014** | | |
|---|---|---|
| Mae digwyddiadau yr ystyriodd y Rheolwr Data nad oeddent yn dod o fewn y meini prawf adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog yn Estyn wedi'u rhoi yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bychan, lleol yn cael eu cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau hyn. | | |
| **Categori** | **Natur y digwyddiad** | **Cyfanswm** |
| I | Colli offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, o safleoedd diogel y Llywodraeth | Dim |
| II | Colli offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, o'r tu hwnt i safleoedd diogel y Llywodraeth | Dim |
| III | Gwaredu offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, mewn modd anniogel | Dim |
| IV | Datgelu heb awdurdod | Dim |
| V | Arall | Dim |

| Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu blwyddyn ar ôl blwyddyn cyn 2013-2014 | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yr adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ôl rhif categori | | | | | | | Cyfanswm nifer y digwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol, yn ôl rhif categori | | | | | | |
| | I | II | III | IV | V | Cyfan-swm | | I | II | III | IV | V | Cyfan-swm |
| 2013-2014 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | 2013-2014 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| 2012-2013 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | 2012-2013 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| 2011-2012 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | 2011-2012 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| 2010-2011 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | 2010-2011 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| 2009-2010 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | 2009-2010 | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

**Canlyniadau am y flwyddyn**

Yn 2013-2014, cyfanswm gwariant refeniw Estyn, net o incwm, oedd £10.92 miliwn (£9.98m: 2012-2013) yn erbyn rhagolwg gwariant o £10.95 miliwn a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o gyfanswm y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau.  Mae datganiadau ariannol Estyn yn adrodd mai cyfanswm ei gyllideb refeniw ar gyfer 2013-2014 yw £10.65 miliwn, yn unol â Chyllideb Atodol Gwanwyn 2014 Llywodraeth Cymru (gosodwyd cyllideb gychwynnol Estyn ar gyfer 2013-2014 ar £11.464m).  Mae'r hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru i addasu ar gyfer amrywiadau rhwng cynlluniau gwariant a amlinellwyd yn ei Gyllideb Atodol olaf o'r flwyddyn a'r alldro diwedd blwyddyn dilynol.  Wrth gymhwyso'r hyblygrwydd hwn, cymeradwyodd yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau wariant Estyn hyd at £10.95 miliwn gan y byddai darpariaeth ar gyfer y swm hwn o fewn cyllideb gyffredinol yr Adran ar gyfer rhaglenni a ariennir.  Felly, nid yw'r arian dros ben ymddangosiadol (gorwariant cyllideb) yn bryder gan nad yw'n adlewyrchu'r deialog parhaus a'r cytundeb rhwng Estyn a swyddogion cyllid perthnasol Llywodraeth Cymru.

Rhoddir y canlyniadau am y flwyddyn yn y datganiadau canlynol a'r nodiadau cysylltiedig.  Yn ystod 2013-2014, cynyddodd Estyn nifer y staff a gyflogir er mwyn cyflawni rhaglen waith sy'n ehangu, a oedd yn cynnwys cynnydd mewn gwaith arolygu a monitro a chyfrifoldebau ychwanegol fel darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar gau ac uno ysgolion.  Ar ôl rhewi cyflogau am bedair blynedd, gweithredodd Estyn godiad cyflog dwy flynedd yn effeithiol o 1 Awst 2013 a oedd yn cysgodi codiad cyflog Ebrill 2014 Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi uchafswm codiad chwyddiannol o 2% i unigolion.  Mae cost staffio ychwanegol a chodiadau cyflog yn cyfrif am dros hanner y cyfanswm cynnydd blynyddol yng ngwariant Estyn o'r flwyddyn flaenorol.  Mae costau cyflogau staff ar gyfer 2013-2014 hefyd yn cynnwys cynnydd o £91k mewn perthynas â gwyliau cronnus (hawl i wyliau blynyddol sydd wedi cronni ond heb ei gymryd erbyn 31 Mawrth 2014), er y dylid nodi mai cofnod

cyfrifyddu yw'r swm hwn yn hytrach na gofyniad gwariant arian ychwanegol gwirioneddol.

Yn 2013-2014, parhaodd Estyn i fuddsoddi mewn datblygu systemau TG sydd eu hangen i gefnogi cyflawni ein rhaglen waith, gan gydnabod y bydd systemau sy'n cefnogi arbedion effeithlonrwydd mewn prosesau gwaith yn hanfodol i fodloni heriau cyllideb posibl yn y dyfodol. Roedd prosiectau'n cynnwys datblygu Cronfa Ddata Canlyniadau Arolygu a system i gadw Proffiliau Arolygwyr, yn ychwanegol at welliannau i'n YAR a mudo ein safle mewnrwyd (SharePoint). Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom ymweliadau o nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys arolygiaethau o'r tu allan i Gymru a chyrff lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru a oedd â diddordeb yn nefnydd Estyn o dechnoleg. Mae rhai o'n syniadau a'n datblygiadau arloesol yn cael eu codi a'u defnyddio gan gyrff eraill y sector cyhoeddus erbyn hyn. Er enghraifft, yn ddiweddar mabwysiadodd Ofsted yr un system Arolygu, Cynllunio a Defnyddio ag a ddefnyddir gan Estyn, ac maent hefyd am geisio datblygu eu fersiwn eu hunain o YAR (bydd aelod o staff Estyn yn ymuno ag Ofsted ar secondiad i gynorthwyo â'r prosiect hwn).

Yn ystod 2013-2014, ehangodd Estyn ei drefniant cynnal cwmwl ar gyfer systemau gwybodaeth. Defnyddiwyd trefniadau gweinydd ar rent i ddatblygu ac ehangu systemau gan ddefnyddio methodoleg 'hyblyg'. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, cynhaliom ailwerthusiad o drefniadau cynnal ac yn sgil costau rhentu cynyddol, penderfynom symud at opsiwn mwy cost-effeithiol a phrynu (trwy wariant cyfalaf) nifer fach o weinyddion pwerus, gyda threfniadau cynnal ar gyfer y gweinyddion hyn yn aros o fewn canolfan ddata allanol. Bydd y trefniant newydd hwn yn cael ei weithredu yn chwarter cyntaf 2014-2015 a bydd yn helpu lleihau costau rhedeg yn y dyfodol.

O ran costau gweinyddol Estyn (gweler Nodyn 4), mae sawl cynnydd nodedig arall yn y gwariant. Mae costau ein hadeilad, er yr ymddengys eu bod wedi cynyddu'n sylweddol, wedi aros yn weddol sefydlog mewn gwirionedd, ac mae'r amrywio rhwng blynyddoedd yn digwydd yn bennaf yn sgil ad-daliad treth sylweddol a dderbyniwyd yn 2012-2013. Yn unol â chynnydd yn nifer yr arolygiadau a gynhelir gan AEM, mae gwariant ar Deithio a Chynhaliaeth wedi parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. (Mae costau teithio a chynhaliaeth hefyd yn cynnwys costau defnyddio Arolygwyr Cymheiriaid). Ni fu unrhyw newid ym mholisi na chyfraddau teithio a chynhaliaeth a ddefnyddir gan Estyn ac mae'r cynnydd mewn gwariant yn adlewyrchu i raddau helaeth ddosbarthiad arolygiadau a'r angen am deithio, llety, ac ati er mwyn cyflawni ein rhaglen waith. Gwneir ymdrechion i ddefnyddio AEMau ac Arolygwyr Cymheiriaid i arolygu darparwyr sydd mor agos â phosibl at eu cartref; fodd bynnag, mae gwrthdaro buddiannau posibl ac argaeledd unigolion yn gosod cyfyngiadau weithiau ar drefniadau amserlennu.

Arhosodd gwariant cyffredinol ar raglenni ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad yng nghostau arolygu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol o ganlyniad i ddefnyddio llai o arolygwyr allanol yn unol â newidiadau yn nifer yr arolygiadau yn cael eu cynnal o fewn sectorau penodol. Mae costau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag arolygu yn cynnwys nifer o elfennau cyllideb. Yng nghyfrifon 2013-2014, roedd y cynnydd nodedig mewn gwariant yn erbyn y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â'r canlynol: cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n gofyn am adroddiadau arolygu dwyieithog

(yn ychwanegol at gynnydd yn nifer gyffredinol yr adroddiadau a gynhyrchir gan Estyn) a arweiniodd at gostau ychwanegol am gyfieithu, argraffu a dosbarthu; a, nifer fwy o ddigwyddiadau (a chynrychiolwyr yn eu mynychu) yn cael eu trefnu gan Estyn i rannu arfer orau a hyfforddi arolygwyr newydd ac arolygwyr presennol.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2014 yn dangos rhwymedigaethau net o £0.122 miliwn (2012-2013: £1.353 miliwn). Mae'r gostyngiad sylweddol ym malans diwedd blwyddyn y rhwymedigaethau net yn bennaf yn ganlyniad trosglwyddo cyllid o Lywodraeth Cymru i gyfrif banc Estyn ar ddiwedd Mawrth 2014. Mae'n arferol i Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Estyn ddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn oherwydd lefel uchel y credydwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r credydwyr hyn yn ganlyniad arferol trefniadau Estyn i ddarparu adnoddau Arolygwyr Cymheiriaid, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Ychwanegol (gan gynnwys secondeion) ar gyfer arolygiadau, ac maent yn deillio o amseriad derbyn yr anfoneb. O ran ad-daliad i ysgolion i dalu cost darparu Arolygwyr Cymheiriaid, bydd Estyn yn symud at broses yn 2014-2015 pan fydd taliad i'r ysgol yn cael ei wneud yn awtomatig – disgwylir y bydd hyn yn lleihau'n sylweddol lefel y croniadau yng nghyfrifon 2014-2015.

Bydd Estyn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'r rhwymedigaethau uchod pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2014-2015 ac, yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Ar gyfer 2013-2014, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllideb cyfalaf o £150k a gwariwyd £89k o hwnnw. Roedd y gwariant ar offer cyfrifiadurol hanfodol yn bennaf, gan gynnwys sefydlu cyfleusterau fideo-gynadledda a llwyfan gweinydd cynaledig newydd a fydd, yn ogystal â lleihau costau cynnal systemau, yn gwella trefniadau parhad busnes.

**Edrych ymlaen**

Yn ystod 2014-2015, byddwn yn adolygu ac yn addasu trefniadau arolygu mewn nifer o sectorau ac yn addasu patrwm arolygiadau ysgolion i wneud amseru arolygiadau yn llai rhagweladwy i ddarparwyr. Bydd ein gwasanaethau cylch gwaith a chynghori yn parhau i lywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn ehangu ein ffrydiau gwaith cynghori.

Fel llawer o gyrff eraill y sector cyhoeddus, byddwn yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol i wneud 'mwy gyda llai' a fydd yn mynnu ein bod yn archwilio cost-effeithiolrwydd ein model cyflawni yn fanwl iawn ac yn cynnal dull hyblyg o ran gwella gweithlu medrus, gwybodus a llawn cymhelliant sy'n cyflawni gwelliant parhaus.

Ceir rhagor o wybodaeth am ffocws ein gwaith yn y dyfodol a'n rhaglen o weithgareddau cynlluniedig yn ein Cynllun Blynyddol 2014-2015 ar ein gwefan: [http://www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Archwilydd**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio cyfrifon Estyn yn unol â Pharagraff 5(2) Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Hyd y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Estyn yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr Estyn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

15 Gorffennaf 2014

## Adroddiad ar gyflogau

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennir eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol;
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith;
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Swyddfa'r Cabinet; a
- pholisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad wrth sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol.

Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. O ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diwethaf, mae Estyn eisoes wedi lleihau nifer ei swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil o bedair i dair, trwy gadw un swydd wag.

Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran gallu;
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd; a'r
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol.

Ni thalwyd unrhyw fonysau i staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2013-2014.

Yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru (1 Ebrill 2014), dyfarnwyd codiad cyflog cyfunol o 2% i swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Estyn yn effeithiol o 1 Awst 2013.

### Contractau gwasanaeth

Gwneir penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Egwyddorion yn gofyn am benodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin

â hwy swyddi penagored. Byddai terfynu cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Nodir y rheolau penodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.independent.gov.uk

**Hawliau tâl (gan gynnwys cyflog) a phensiwn**

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).

## Tâl (cyflog a thaliadau mewn nwyddau) *

| | 2013-2014 | | | | | 2012-2013 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Cyflog £'000** | **Tâl am Berfformiad ar Wahân £'000** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Byddion pensiwn i'r £1,000[2] agosaf** | **Cyfan-swm £'000's** | **Cyflog £'000** | **Tâl am Berfformiad ar Wahân £'000** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf** | **Cyfan-swm £'000's** |
| Ann Keane Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | **110-115** | **0** | **-** | **8** | **120-125** | **105-110** | **5-10** | **-** | **1** | **110-115** |
| Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol | **75-80** | **0** | **-** | **-3** | **70-75** | **75-80** | **0** | **-** | **44** | **115-120** |
| Meilyr Rowlands Cyfarwyddwr Strategol | **75-80** | **0** | **-** | **7** | **80-85** | **75-80** | **0** | **-** | **2** | **75-80** |
| Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y Cyflog Uchaf | **110-115** | | | | | **105-110** | | | | |
| Cyfanswm canolrifol | **£62,500** | | | | | **£54,500** | | | | |
| Cymhareb gan ddefnyddio pwynt canol y band cyflog | **1.8** | | | | | **1.97** | | | | |

* ffigurau wedi'u harchwilio

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; taliadau am berfformiad neu daliadau bonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan Estyn ac sydd felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

[2] Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real mewn pensiwn x 20) + (y cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn)

**Buddion mewn nwyddau**

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

**Buddion pensiwn***

| Swyddogion | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/14 a'r cyfandaliad cysylltiedig £'000oedd | Cynnydd real/ (gostyngiad) mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £'000oedd | Gwerth Tros-glwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/14 £'000oedd | Gwerth Tros-glwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/13 £'000oedd | Cynnydd real/ (gostyngiad) mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £'000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ann Keane Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 55-60 a chyfandaliad o 165-170 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 1,185 | 1,164 | 7 |
| Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol | 35-40 a chyfandaliad o 65-70 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 737 | 695 | -4 |
| Meilyr Rowlands Cyfarwyddwr Strategol | 30-35 a chyfandaliad o 95-100 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 659 | 614 | 5 |

* ffigurau wedi'u harchwilio

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu

gynllun gyrfa lawn (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall gweithwyr a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pryniant arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio o 1.5% i 6.25% o enillion pensiynadwy ar gyfer **classic** a 3.5% i 8.25 ar gyfer **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Bydd cynnydd i gyfraniadau gweithwyr yn berthnasol o 1 Ebrill 2013. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion **premium** yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae **classic plus** yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â **classic** a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus** yw 60 oed, a 65 oed ar gyfer aelodau **nuvos**.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan, sef www.civilservice-pensions.gov.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir

gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo o fewn yr arweiniad a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

**Cynnydd real mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Taliad diswyddo**

Talwyd taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a luniwyd gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Caiff costau ymadael eu cyfrifo'n llawn yn ystod y flwyddyn ymadael. Pan fydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeol yn sgil iechyd gwael gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

15 Gorffennaf 2014

## Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

Dan Atodlen 6, paragraff 5(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan Estyn yn ystod y flwyddyn.  Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ac o alldro net ei adnoddau, sefyllfa ariannol, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth' ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn unol â pharagraff 5(2) Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y nodwyd yn 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth', a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifyddu Estyn.  Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ddosbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

# Datganiad llywodraethu

## Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu busnes Estyn. Mae gan Estyn system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau Estyn yn effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion **Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2011 (Y Cod),** eu hadlewyrchu yn nhrefniadau llywodraethu Estyn, yng nghyd-destun amgylchiadau Estyn fel adran anweinidogol.

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut mae llywodraethu da wedi'i gynnal yn Estyn ac yn esbonio'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad a sut mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli.

## Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Estyn, ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Estyn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r diagram yn Atodiad 1 y datganiad hwn yn dangos yn gryno ystod a lefel y sicrwyddau sy'n sail i drefniadau llywodraethu Estyn.

Amlinellir datganiad clir o ddiben a gweledigaeth Estyn yn ei Gynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol Estyn ac mae'n nodi ei brif nodau ac amcanion. Rhoddir gwybodaeth am berfformiad a chyflawniad Estyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol yn Adran 1 yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Caiff y gwaith o oruchwylio Estyn ei arfer trwy'r Bwrdd Strategol a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Yn ystod 2013-2014, cyfarfu'r Bwrdd Strategol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwarter ac roedd pob un o'r aelodau yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd. Yn chwarter olaf y flwyddyn, cryfhawyd aelodaeth y bwrdd a'r pwyllgor uchod ymhellach drwy ychwanegu aelod cyfetholedig, Mr Arwel Thomas, sef cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu (Llywodraeth Cymru).

Rhoddodd cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd Strategol gyngor ar faterion strategol a rheoli risg fel rhan o herio a chefnogi gweithrediaeth Estyn. Roedd y meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd i'r afael â nhw yn ystod 2013-2014 yn cynnwys:

- Cynllun Blynyddol Estyn, gan ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Estyn;
- Adroddiad Blynyddol PAEM;
- cynllun busnes tair blynedd ac asesiad o effaith toriadau posibl i'r gyllideb;
- cynllunio ar gyfer y gweithlu; a
- goblygiadau posibl yr adolygiad o gyrff Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio (AARh) yng Nghymru, a Chomisiwn Williams ar Lywodraethu a Chyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadarnhaodd hunanarfarniad blynyddol o effeithiolrwydd y bwrdd fod cyfarwyddwyr anweithredol yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbwn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Er bod Estyn yn cynnal cysylltiadau agos â'r Adran Addysg a Sgiliau, mae'n derbyn ei gyllid trwy raglenni a ariennir gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau - mae hyn yn helpu cynorthwyo Estyn i gynnal ei annibyniaeth mewn materion addysg a hyfforddiant. Yn ogystal â chael mynediad uniongyrchol at PAEM trwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y cyfarwyddwyr anweithredol gyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol a Chymunedau (yr adran yn Llywodraeth Cymru sy'n ariannu Estyn) - ni chodwyd unrhyw bryderon yn ystod 2013-2014.

**Archwilio ac effaith**

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gyhoeddi ar wefan Estyn; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2013-2014 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor. Parhaodd y pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol gan Estyn ar gyfer llywodraethu a bod ganddo bolisi rheoli risg effeithiol a oruchwylir gan y Bwrdd Strategol (mae'r cyfarwyddwyr anweithredol yn gwasanaethu ar y Bwrdd Strategol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Caiff gwaith archwilio mewnol Estyn ei gynllunio gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gymeradwyo'r rhaglen archwiliadau flynyddol, ac ar gyfer 2013-2014 sicrhaodd fod sylw digonol yn cael ei roi i feysydd allweddol yn unol â rhaglen archwilio tair blynedd gytûn. Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro, ac ar ddiwedd y flwyddyn ystyriwyd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol (Deloitte). Cynghorodd yr adroddiad hwn ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli mewnol i'w hystyried gan aelodau'r Pwyllgor.

Fe wnaeth canlyniad y gwaith archwilio mewnol lywio barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith rheoli mewnol Estyn; 'Ar sail y gwaith a wnaethom yn ystod y flwyddyn, gallwn ddod i'r casgliad fod gan Estyn system rheolaeth fewnol gadarn, a ddylai ddarparu **sicrwydd sylweddol** ynglŷn â chyflawni amcanion Estyn'. Arweiniodd gwaith a gwblhawyd gan archwilwyr mewnol Estyn yn ystod 2013-2014 at adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Adolygwyd pob un o'r adroddiadau archwilio mewnol a thrafodwyd y prif faterion yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac mae'n fodlon bod yr holl gamau rheoli wedi'u gweithredu neu eu cynllunio.

Yn ogystal â’r rhaglen archwilio mewnol a adroddir yn Nhabl 1, cynhaliodd Archwilio Mewnol raglen o hapwiriadau cydymffurfiaeth heb eu cyhoeddi - ni fynegwyd unrhyw bryderon sylweddol yn ystod 2013-2014.

| **Tabl 1<br>rhaglen archwilio mewnol 2013-2014 (barn)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes archwilio mewnol** | **Sicrwydd** | **Blaenoriaeth uchel** | **Blaenoriaeth ganolig** | **Blaenoriaeth isel** | **Cyfanswm** |
| Llywodraethu Corfforaethol. Rheoli Risg (gweithgarwch dilynol) a Rheolaeth Strategol | Llawn | - | - | - | **-** |
| Rheoli Cwynion | Llawn | - | - | 1 | **1** |
| Adnoddau Dynol: Recriwtio, Penodiadau Newydd a Rheoli Perfformiad Staff (gweithgarwch dilynol) | Sylweddol | - | - | 3 | **3** |
| Cyllidebau, Cyfriflyfr Cyffredinol a Chyfrifyddu | Sylweddol | - | - | 1 | **1** |
| Prynu a Thaliadau | Sylweddol | - | - | 2 | **2** |
| Rheoli Arian Parod, Refeniw a Symiau sy’n Dderbyniadwy | Sylweddol | - | 1 | 1 | **2** |
| Y Gyflogres | Sylweddol | - | - | 1 | **1** |
| Iechyd a Diogelwch:<br>Ymsefydlu<br>Asesu Risg | <br>Sylweddol<br>Cynghorol | | 1 | 2 | **3** |
| Rheolaethau Cyffredinol TG | Cynghorol | - | - | - | **-** |
| **Cyfanswm** | | **-** | **2** | **11** | **13** |

Cyfarfu Pwyllgor Cyflogau Estyn deirgwaith (roedd yr holl aelodau’n bresennol) yn ystod 2013-2014 i ystyried perfformiad a chyflogau uwch aeolodau staff Estyn, gan gynnwys PAEM.  Mae cyflogau staff nad ydynt yn staff uwch yn amodol ar gytundeb lleol, ond maent wedi’u seilio ar raddfeydd cyflog safonol y gwasanaeth sifil; yn 2013-2014 aliniodd Estyn gyflogau ei staff â chyfraddau cyflog Llywodraeth Cymru.

Mae Estyn yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau’r Bwrdd Strategol a chofrestr buddiannau ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro. Nid oedd gan unrhyw aelod o’r Bwrdd Strategol swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiant arwyddocaol arall a oedd yn gwrthdaro a’i gyfrifoldebau yn Estyn.

## Rheoli risg

Mae system rheoli risg Estyn wedi’i seilio ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu’r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion Estyn, ac arfarnu tebygolrwydd gwireddu’r risgiau hyn a’r effaith pe cânt eu gwireddu.  Ar gyfer 2013-2014, parhawyd i gadw cofrestrau risg ar lefel strategol gan y Bwrdd Gweithredol, ar lefel gorfforaethol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Estyn, ac ar lefelau gweithredol gan weithgorau, timau swyddogaethol a thimau prosiect.  Mae gan bob risg berchennog

unigol sy'n gyfrifol am fanylu ar y rheolaethau sydd ar waith a'u cofnodi, ynghyd â chamau gweithredu pellach a gynlluniwyd i liniaru'r risg – ac mae proses gynyddu ar waith i godi risgiau i lefel reolaeth uwch.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2013-2014 a gwblhawyd gan bob un o gyfarwyddwyr Estyn yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth; nid adroddwyd ar unrhyw achosion o dorri diogelwch nac unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2013-2014. Cafodd Estyn sicrwydd gan Lywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â'r gyflogres a'r gwasanaethau adnoddau dynol y mae'n eu darparu i Estyn o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol.

Roedd rhai o'r meysydd risg a'r materion allweddol yr ymdriniwyd â nhw gan y rheolwyr yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- **Mudo systemau gwybodaeth i ganolfan ddata drwy fframwaith G-cloud y llywodraeth**. Mae'r symudiad wedi galluogi Estyn i fabwysiadu arferion gweithio mwy ystwyth i gefnogi gweithio o bell, ac mae'n unol ag arferion llywodraeth argymelledig. Fodd bynnag, cyflwynodd nifer o heriau o ran cyflawni ffurfweddiadau systemau sy'n gost-effeithiol ac yn darparu parhad busnes cadarn. Mae'r pwyntiau dysgu o'r prosiect mudo wedi helpu Estyn i weithredu opsiynau cynnal a fydd yn lleihau risgiau ymhellach ac yn darparu gwerth am arian gwell yn 2014-2015.
- **Cynyddu'r gallu arolygu mewnol i ddarparu adnoddau ar gyfer rhaglen waith eang, ac yn benodol, y gofyniad cynyddol am gyflawni arolygiadau dilynol.** Parhaom â'n rhaglen recriwtio, gan gynnwys secondio Arolygwyr Ychwanegol, ond fe wnaethom fethu ein targed o ychydig ar gyfer arolygiadau yn cael eu harwain gan Estyn, ac felly roedd angen i ni wneud mwy o ddefnydd o Arolygwyr Ychwanegol dan gontract. Arweiniodd ymgyrch recriwtio llwyddiannus yn chwarter olaf y flwyddyn at benodi saith AEM newydd (yn dechrau yn yr hydref 2014) i ddarparu'r gallu gofynnol wrth fynd ymlaen.
- **Cynnal, ac yn wir, gwella ansawdd gwaith Estyn.** Yn ystod y flwyddyn: rhoesom fodel ansawdd/prisiau ar waith ar gyfer dyfarnu contractau i'n Harolygwyr Ychwanegol allanol; a rhoddodd adroddiad a luniwyd gan ein harchwilydd mewnol raddfa 'sicrwydd llawn' ar ein prosesau sicrhau ansawdd. Ar gyfer staff Estyn, gweithredom broses Rheoli Perfformiad Parhaus newydd ar sail fframwaith cymwyseddau'r gwasanaeth sifil. Mae'r broses newydd wedi helpu unigolion (staff a rheolwyr) i gynnal ffocws cyson ar faterion yn ymwneud â pherfformiad - cynhelir arfarniad llawn o flwyddyn gyntaf y system newydd yn ystod haf 2014.
- **Rheoli'n briodol ymgysylltiad strategol Llywodraeth Cymru â ni er mwyn cynyddu i'r eithaf ein dylanwad ar lunio polisi ar sail tystiolaeth.** Trwy gydol 2013-2014, parhaom i gryfhau perthnasoedd gweithio a chysylltiadau â chydweithwyr yn yr Adran Addysg a Sgiliau er mwyn dylanwadu ar fentrau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- **Rheoli o fewn cyfyngiadau cyllidebol i gyflawni amcanion craidd ein Cynllun Blynyddol.** Parhaodd y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategol i adolygu'n rheolaidd yr ymagwedd at senarios cyllidebol a oedd yn dod i'r amlwg. Nodwyd opsiynau i ddarparu hyblygrwydd er mwyn bodloni newidiadau posibl yn y dyfodol, ac aseswyd yr effaith bosibl ar weithrediadau Estyn a'i allu i gyflawni ei amcanion.

## Materion llywodraethu arwyddocaol


Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â fframwaith llywodraethu cyffredinol Estyn. Edrychodd yr adolygiadau archwilio mewnol ar feysydd sylweddol o fusnes Estyn a da yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth ac nid oedd unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel a oedd yn mynnu gweithredu gan y rheolwyr. Fe wnaeth Estyn ddioddef un digwyddiad bach lle peryglwyd un o'i linellau telathrebu gan arwain at gostau o ryw £1k am alwadau twyllodrus. Nodwyd y digwyddiad hwn a deliwyd ag ef yn gyflym; cyflwynwyd adroddiad llawn, gan gynnwys camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn Ebrill 2014, a hysbyswyd yr awdurdodau perthnasol hefyd. Rwy'n fodlon yr aethpwyd i'r afael â chyfleoedd penodol i wella llywodraethu a rheolaethau mewnol a nodwyd fel rhan o brosesau sicrhau Estyn, neu fe'u cynhwyswyd mewn cynlluniau gweithredu ar gyfer y rheolwyr perthnasol.

Gan gyfeirio at rai o elfennau sicrwydd allanol Estyn, mae'n dda cael adrodd am set arall o ganlyniadau cadarnhaol iawn o ran ymgysylltu â staff yn deillio o Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Yn ogystal, yn Ebrill 2014, cafodd Estyn ganlyniadau adolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl a asesodd y sefydliad ar y lefel 'aur', a chyflawnwyd achrediad 'arian' gennym hefyd am y Safon Iechyd Corfforaethol.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

15 Gorffennaf 2014


Trefniadau fframwaith sicrwydd Estyn
Fframwaith Rheoli Estyn
Amcanion strategol a gweithredoedd cefnogi (cyhoeddwyd yn y Cynllun Blynyddol)
Prosesau Cynllunio Busnes Strategol a Rhaglennu Gwaith
System Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Gweithdrefnau pennu cyllideb a rheoli cyllideb (Llawlyfr Cyllid)
Rheoli Prosiectau a Rhaglenni (e.e. Adroddiad Blynyddol)
Rheoli Risg
Polisi Gwrth-dwyll
Fframwaith Llywodraethu
Cytundebau partneriaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth
Polisïau, gweithdrefnau a chodau ymddygiad (yn gyson â modelau'r Gwasanaeth Sifil)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Swyddog Cyfrifyddu a Byrddau Gweithredol/Strategol
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Adolygu a monitro effeithiolrwydd Llywodraethu, Rheoli Risg ac adolygu'n fewnol a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Arweiniad Canolog
Arweiniad Trysorlys EM
Cod Llywodraethu Corfforaethol
Rheoli Arian Cyhoeddus (Cymru)
Arweiniad Rheoli Risg y Llywodraeth
Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
Polisïau, cynlluniau gweithredol a chofrestrau risg Estyn
Grŵp Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, cynnal y fframwaith sicrwydd a darparu tystiolaeth ategol
Elfennau'r Map Sicrwydd
Llinell amddiffyn 1af
Datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
Sicrwydd cyflawni gweithredol, e.e. Diweddariadau Misol i Grwpiau
Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Adrodd ar DP/ Gwybodaeth Reoli
2il linell amddiffyn
Adolygiadau o gofnodion gweithredu (ac adrodd drwy SharePoint)
Adolygiadau o'r cofrestrau risgiau
Sicrwyddau 3ydd Parti (trefniadau contractiol)
Sicrhau Ansawdd Arolygiadau (SAAr) a Sicrhau Ansawdd Adroddiadau (SAAd)
Sicrwydd (bwrdd) prosiectau
Sicrwydd rheolaeth ariannol (adroddiadau IRIS)
Sicrwydd diogelwch gwybodaeth (adolygiadau cydymffurfio Grŵp IG)
3edd llinell amddiffyn
Archwilwyr Mewnol (adroddiadau)
Archwilwyr Mewnol (hapwiriadau)
Adolygiadau allanol, e.e. gwiriadau cydymffurfio CSC
Achrediadau, e.e. Iechyd Corfforaethol, BmP, Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil
Sicrwyddau eraill
Archwilwyr Allanol

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gyflogau y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

### *Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd*

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gyflogau, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM, a wneir yn ôl y gofynion hynny ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gyflogau a fydd yn cael ei harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arfer Archwilio.

### *Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol*

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, p'un a ydynt wedi'u hachosi gan wall neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau Estyn ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifo sylweddol a wnaed gan Estyn; a'r modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Sylwebaeth ar Reolaeth, er mwyn canfod unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

### *Barn am y Datganiadau Ariannol*

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Estyn ar 31 Mawrth 2014 ac o'i gost gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

### *Barn am Reoleidd-dra*

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### *Barn am ystyriaethau eraill*

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, y Sylwebaeth ar Reolaeth a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau nad yw wedi'i harchwilio, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### *Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad*

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r ystyriaethau canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Rheolaeth Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### *Adroddiad*

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

22 Gorffennaf 2014

# Cyfrifon Blynyddol Estyn 2013-2014
# (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – IFRS)

**Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| | | 2013-2014 | | | 2012-2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Cyllideb | Alldro Gwirioneddol | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu â'r Amcan (arbediad)/dros ben | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Adnoddau:** | | | | | |
| Costau staff | 3 | 7,638 | 7,735 | 97 | 7,072 |
| Dibrisiant | 6 | 150 | 122 | (28) | 137 |
| Costau eraill | 4 | 2,862 | 3,065 | 203 | 2,770 |
| **Costau Gweithredu Crynswth** | | **10,650** | **10,922** | **272** | **9,979** |
| **Incwm gweithredu** | 5 | **-** | **(3)** | **(3)** | **(4)** |
| **Costau Gweithredu Net am y flwyddyn** | | **10,650** | **10,919** | **269** | **9,975** |

Adroddir y gwariant net fel segment unigol yn unol â Chynllun Blynyddol Estyn 2013-2014 (sydd ar gael yn www.estyn.gov.uk).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o'r sefyllfa ariannol** ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 | | 31 Mawrth 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 6&7 | 77 | | 110 | |
| Asedau anniriaethol | | - | | - | |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **77** | | **110** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | 175 | | 104 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 10 | 947 | | 48 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | **1,122** | | **152** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **1,199** | | **262** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 11 | (1,183) | | (1,471) | |
| Darpariaethau o fewn blwyddyn | 12 | (6) | | (12) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | (1,189) | | **(1,483)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **10** | | **(1,221)** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau: Rhwng dwy a phum mlynedd | 12 | (132) | | (132) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(132)** | | **( 132)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **(122)** | | **(1,353)** |
| **Ecwiti'r trethdalwr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (122) | | (1,353) | |
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwr** | | | **(122)** | | **(1,353)** |

**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu
15 Gorffennaf 2014

**Datganiad o lifoedd arian** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | **Nodyn** | **2013-2014 £000** | **2012-2013 £000** |
|---|---|---|---|
| Cost gweithredu net | | (10,919) | (9,975) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiant | 6 | 122 | 137 |
| Costau eraill (darpariaeth) | 4 a12 | 6 | 2 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | (288) | (81) |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | (71) | (5) |
| **Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | |
| Credydwyr cyfalaf | 6 | (55) | - |
| Defnydd o ddarpariaethau | 12 | (12) | (47) |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(11,217)** | **(9,969)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 6 | (34) | (53) |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(34)** | **(53)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| **Ariannu net (gan Lywodraeth Cymru)** | | **12,150** | **10,000** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | **899** | **(22)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 10 | **48** | **70** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 10 | **947** | **48** |

Nodyn: Nid yw prynu eiddo, cyfarpar ac offer yn ystod 2013/14 yn cynnwys credydwyr o £55,000.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr** | **2012-2013** | |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | (1,378) |
| | (9,975) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2012-2013 | (9,975) | |
| | 10,000 | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | | 25 |
| | | (1,353) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | |
| | **2013-2014** | |
| **Balans ar 31 March 2013** | | (1,353) |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2013-2014** | | |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (10,919) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2013-2014 | (10,919) | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | 12,150 | |
| | | 1,231 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **(122)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 74 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2013-2014 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Estyn, at ddibenion roi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2013-14 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru, cytunodd Estyn ar gyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig yn 2011-2012, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg.

### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg.

### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Offer TG 3-5 mlynedd
- Dodrefn a gosodiadau 5 mlynedd
- Offer swyddfa 5 mlynedd
- Systemau TG 5 mlynedd
- Asedau anniriaethol 3 blynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

### 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn

uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor ac yn destun adolygiad blynyddol, ac maent wedi'u disgowntio'n unol â System Gwariant Cyhoeddus PES (2012) 15.

### 1.5 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd (ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol) ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy'n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

### 1.6 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â'i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar 'Gostau eraill' yn Nodyn 4 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

### 1.7 Treth ar Werth

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.8 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 3. Nid yw elfennau buddion diffiniedig cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi. Nid oedd unrhyw ymadawiadau cynnar na diswyddiadau yn 2013-2014.

### 1.10 Prydlesi gweithredu

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

### 1.11 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.12 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2013-2014. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 2 Cysoni alldro adnoddau net yn ôl gofyniad arian parod net yn erbyn cyllid cymeradwy Llywodraeth Cymru

| | Nodyn | Cyllideb 2013-2014 | Alldro 2013-2014 | Alldro o gymharu â'r amcan (arbediad) / dros ben | 2012-2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro Adnoddau** | | 10,650 | 10,919 | 269 | 9,975 |
| **Alldro Cyfalaf** | 6 | 150 | 89 | (61) | 53 |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | | |
| **Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | | | | |
| Dibrisiant | 6 | (150) | (122) | 28 | (137) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 12 | - | (6) | (6) | (2) |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** | | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau sy'n dderbyniadwy | 9 | - | 71 | 71 | 5 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau sy'n daladwy | 11 | - | 288 | 288 | 81 |
| Defnyddio darpariaethau | 12 | - | 12 | 12 | 45 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **10,650** | **11,251** | **601** | **10,022** |

## 3 Costau a niferoedd staff

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Cyfanswm 2013-2014 £000oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol £000oedd | Eraill £000oedd | 2012-2013 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 5,143 | 5,143 | - | 4,690 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 489 | 489 | - | 460 |
| Costau pensiwn eraill | 1,051 | 1,051 | - | 996 |
| **Cyfanswm costau net** | 6,683 | 6,683 | - | 6,146 |
| Ynghyd â: | | | | |
| Secondeion i mewn | 760 | | 760 | 720 |
| Secondeion allan | (20) | | (20) | (25) |
| Staff asiantaeth | 305 | | 305 | 231 |
| Costau ymadael yn gynnar – yn y flwyddyn | 1 | | 1 | - |
| Costau ymadael yn gynnar – darpariaethau | 6 | | 6 | |
| **Cyfanswm** | **7,735** | **6,683** | **1,052** | **7,072** |

Nid oedd unrhyw gostau newydd ymadael yn gynnar yn 2013-2014. Mae cyfanswm y costau ymadael yn gynnar a ddangosir yn y tabl uchod (£7,000) yn ymwneud â diffyg yn y ddarpariaeth o ran costau wreiddiol ar gyfer aelod o staff a adawodd Estyn ar 31 Mawrth 2011, h.y. cafwyd £1,000 o gostau ychwanegol yn 2013-14 a bydd costau pellach o £6,000 yn 2014-15.

Mae holl gyflogeion Estyn yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n gynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu. Nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun hwn. Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (http://www.civilservice.gov.uk/pensions ).

Ar gyfer 2013-2014, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1,051,000 yn daladwy i'r PCSPS (2012-2013: £996,000) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 17.1% i 25.5% o dâl pensiynadwy (2012-2013: 17.1% i 25.5%) yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2014-2015, bydd y cyfraddau yn yr ystod 17.1% i 25.5%. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2013-2014 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Nid yw unrhyw un o gyflogeion Estyn wedi arfer y dewis hwn.

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Nifer y staff parhaol a gyflogir | Eraill[1] | Cyfanswm y staff 2013-2014 | Cyfanswm y staff 2012-2013 |
|---|---|---|---|
| 100 | 19 | 119 | 113 |

## 4 Costau eraill

| | 2013-2014 £000 | 2012-2013 £000 |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: adeiladau | **125** | **125** |
| Costau adeiladau eraill | **225** | **144** |
| TG a thelathrebu | **723** | **562** |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru | **13** | **20** |
| Teithio a chynhaliaeth | **577** | **505** |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | **32** | **30** |
| Gwariant gweinyddol cyffredinol | **278** | **284** |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| - darpariaeth ar gyfer adnewyddu adeiladau | **-** | **2** |
| - dibrisiant asedau diriaethol | **122** | **133** |
| - dibrisiant asedau anniriaethol | **-** | **4** |
| | **2,095** | **1,809** |
| Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 5) | **(3)** | **(4)** |
| **Isgyfanswm: Costau gweinyddol net** | **2,092** | **1,805** |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | **14** | **7** |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | **774** | **829** |
| Arolygiadau awdurdodau addysg lleol a chostau cysylltiedig | **25** | **85** |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | **271** | **163** |
| Costau cylch gwaith | **8** | **14** |
| **Isgyfanswm: Costau rhaglenni** | **1,092** | **1,098** |
| **Cyfanswm y costau eraill** | **3,184** | **2,903** |
| **Cyfanswm y Costau eraill heb Incwm a dibrisiant** | **3,065** | **2,770** |

## 5 Incwm

| | 2013-2014 £000 | 2012-2013 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| - ffioedd cofrestru | (3) | (3) |
| - amrywiol | - | (1) |
| **Cyfanswm** | **(3)** | **(4)** |

[1] Mae staff eraill yn cyfeirio at secondeion a staff asiantaeth.

Gan fod swm yr incwm a dderbynnir yn fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

## 6 Eiddo, cyfarpar ac offer

| | Systemau TG £000 | Offer TG £000 | Dodrefn a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Cyfan-swm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 196 | 624 | 243 | 90 | 1,153 |
| Ychwanegiadau | - | 82 | 7 | - | 89 |
| Gwarediadau | - | (24) | - | - | (24) |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **196** | **682** | **250** | **90** | **1,218** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 196 | 516 | 241 | 90 | 1,043 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 120 | 2 | - | 122 |
| Gwarediadau | - | (24) | - | - | (24) |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **196** | **612** | **243** | **90** | **1,141** |
| **Swm i'w gario Ar 31 Mawrth 2014** | **-** | **70** | **7** | **-** | **77** |
| Ar 1 Ebrill 2013 | **-** | **108** | **2** | **-** | **110** |

## 7 Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd £000 | DVD £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | 11 | **109** | 120 |
| **Ychwanegiadau** | - | - | - |
| **Gwarediadau** | - | **-** | - |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **11** | **109** | **120** |
| **Dibrisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | 11 | 109 | 120 |
| **Codwyd yn ystod y flwyddyn** | - | - | - |
| **Gwarediadau** | - | **-** | - |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **11** | **109** | **120** |
| **Swm i'r gario Ar 31 Mawrth 2014** | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **-** | **-** | **-** |

## 8 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog neu arian tramor

Er nad yw'r balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Mae'r holl adneuon perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 9 Symiau derbyniadwy masnach ac asedau cyfredol eraill

### 9a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31 Mawrth 2014 £000 | Ar 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy masnach | **-** | - |
| Symiau derbyniadwy eraill | **63** | 37 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **112** | 67 |
| **Cyfanswm** | **175** | 104 |

### 9b Balansau Rhyng-lywodraeth

| | Ar 31 Mawrth 2014 £000 | Ar 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | **61** | 17 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | **-** | - |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | **114** | 87 |
| **Cyfanswm** | **175** | 104 |

## 10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2014 £000 | Ar 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2013 | **48** | 70 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | **899** | (22) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **947** | 48 |

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ac yn gweithredu dau gyfrif banc. Defnyddir Citi Bank i gasglu incwm BACS ac mae'r cyfrif NatWest yn darparu gwasanaeth talu BACS a chyfleusterau bancio lleol. Roedd y balansau canlynol ar gael ar 31 Mawrth 2014:

| | Ar 31 Mawrth 2014 £000 | Ar 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| Balansau yn Citi Bank | **947** | 48 |
| Balansau yn NatWest | **-** | - |
| | **947** | 48 |

## 11 Symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### 11a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31 Mawrth 2014 £000 | Ar 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau taladwy masnach | **217** | 94 |
| Cyllid y gyflogres | **253** | 542 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **713** | 835 |
| | **1,183** | 1,471 |

### 11b Balansau Rhyng-lywodraeth

| | Ar 31 Mawrth 2014 £000 | Ar 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | **71** | 655 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | **223** | 157 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | **889** | 659 |
| **Cyfanswm** | **1,183** | 1,471 |

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo swyddfa wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles

**Ymadael yn gynnar:** Rhwymedigaethau i dalu costau pensiwn staff y dyfodol sy'n gadael Estyn o dan gynllun ymddeoliad cynnar y Gwasanaeth Sifil

| **Darpariaethau** | **Adnewyddu adeiladau £000** | **Ymadael yn gynnar £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2013 | | | |
| - O fewn blwyddyn | **-** | **12** | **12** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **132** | **-** | **132** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | **-** |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth | **-** | **6** | **6** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **-** | **(12)** | **(12)** |
| Darpariaeth sy'n weddill: | | | |
| - O fewn blwyddyn | **-** | **6** | **6** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **132** | **-** | **132** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | **-** |
| Cyfanswm y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2014 | **132** | **6** | **138** |

## 13 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2014.

## 14 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

| | **2013-2014 £000** | | 2012-2013 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2014, roedd Estyn yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol yn ystod blynyddoedd y dyfodol mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn dod i ben: | | | | |
| - o fewn blwyddyn | **106** | **-** | 106 | - |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | **86** | **-** | 192 | **-** |
| - ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | - | - |
| | **192** | **-** | 298 | - |

## 15 Ymrwymiadau eraill

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2014 (Nid oedd unrhyw gontractau na ellir eu canslo ar 31 Mawrth 2013).

## 16 Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2014 (nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2013).

## 17 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru a sefydliad canlynol y Llywodraeth yr ystyrir ei fod yn barti cysylltiedig:

- Swyddfa Archwilio Cymru

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

## Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| AARh | Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio |
| ACof | Arolygydd Cofrestredig |
| AdAS | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| AEM | Arolygydd Ei Mawrhydi |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| ARAC | Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd |
| ASCL | Arolygydd Ychwanegol |
| ATL | Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr |
| AY | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau |
| BACH | Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain |
| BACS | System Glirio Awtomataidd y Banciau |
| BmP | Buddsoddwyr mewn Pobl |
| CC | Cyfarwyddwr Cynorthwyol |
| CCAC | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| CETV | Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CPC | Comisiynydd Plant Cymru |
| CyngACC | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| DDD | Deddf Diogelu Data |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| ETI | Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (Gogledd Iwerddon) |
| FReM | Llawlyfr Adrodd Ariannol |
| FfF | Ffurflen Farnau |
| GBS | System Bancio’r Llywodraeth |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| IFRS | Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| NAHT | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon |
| NED | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| NIACE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion |
| NTFW | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |

| | |
|---|---|
| Ofsted | Swyddfa Safonau mewn Addysg (Lloegr) |
| PACh | Polisi Arolygu a Chydymffurfio |
| PAEM | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PCSPS | Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| QAA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |
| RhG | Rhyddid Gwybodaeth |
| RSS | Crynodeb o Safle Cyfoethog [Rich Site Summary] |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| SOLACE | Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru |
| TAW | Treth ar Werth |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| TGCh | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| UCAC | Undeb Athrawon Cymru |
| UCD | Uned cyfeirio disgyblion |
| YAR | Ystafell arolygu rithwir |